

BYWYD A CHAN

Y DIWEDDAR BARCH.

TOMOS EFANS

FFORDDLAS, GLAN CONWY

Y COFIANT GAN

J. GWYDDNO WILLIAMS, LLANNEFYDD

A'R GWEITHIAU BARDDONOL, LLYTHYRAU, &c.

O DAN EI OLYGIAETH

“Llaw y diwyd a gyfoethoga.”

“Llwybr y cyfiawn sydd fel y goleuni.”


“Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig.”

Cyhoeddwyd gan Edwin Evans, L.T.S.C. (ei fab),

Trallwyn, Glan Conwy

1936

*Licenciate of the
Tonic Socy-fa
college*



Y CYFLWYNIAD

CYFLWYNIR y Cofiant a'r Gweithiau hyn i'r Eglwysi a wasanaethodd ein diweddar annwyl frawd mor ffyddlawn am gynifer o flynyddoedd—yn arbennig felly yr Eglwysi yn Conwy, Fforddilas, Eglwys Bach, a'r Roe Wen—yn y gobaith y bydd cymdeithas yn y modd yma â “Tomos Efans, Fforddilas” yn foddion i ail-ennyn dawn Duw ynddynt.

Boed hedd a llwyddiant byth-gynyddol i'r Eglwysi uchod, ac i'r holl Eglwysi yng Ngogledd Cymru y bu ef yn eu gwasanaethu yn Efengyl Iesu Grist. Yr Arglwydd tirion fyddo gyda'ch ysbryd chwi oll, ac a'ch llwyddo ym mhob rhyw fodd.

Yr eiddoch yn bur byth,

J. GWYDDNO WILLIAMS.

LLYS NEFYDD, LLANNEFYDD.

GAIR AT Y DARLLENYDD

ANNWYL DDARLLENYDD,

Gŵr a edmygwn er yn fachgen oedd y diweddar Barch. Tomos Efans (Cyndelyn), Fforddlas, Glan Conwy, ac fel yr awn ymlaen mewn bywyd tyfai yr edmygedd hwnnw yn fwy-fwy. Ystyriwn bob amser ei fod yn ŵr duwiol, galluog a diwylliedig i'r Arglwydd a'i gyd-ddynion. Gwaith hawdd oedd fy nghael i addoysgrifennu ei Gofiant a golygu ei Weithiau, &c., am y credwn na fu neb erioed teilyngach o gofiant. Ond wedi ymgymryd â'r gorchwyl a gweled leied oedd y defnyddiau at y gwaith, bu yn edifar gennyf addo, am yr ofnwn na fedrid gwneud dim teilwng o'r gwrthrych—er gweithio'n galed am wythnosau, yn methu dod ar draws dim perthynol iddo, tra yn gweled bob dydd ddigon o ddefnyddiau cofiantau i'w gyd-fforddolion, ond dim gair am Tomos Efans yn llenyddiaeth gofnodol ei gyfnod! Dylasai'r gwaith hwn fod wedi ei wneud ers dros ugain mlynedd yn ôl, pan oedd digon o'i gyfoedion a'i edmygwyr yn fyw. Diau y cawsid felly lawer o bethau gwir fuddiol i bawb. Erbyn heddiw y mae dros saith mlynedd ar hugain wedi cerdded, y naill ar ôl y llall, dros ei fedd a'i hanes, a blynyddoedd geirwon a fuont, llawnion o elfennau dinistr i bob peth o'r nodwedd yma. Cyfododd cenhedlaeth newydd nad adwaenant Tomos Efans, Fforddlas, ac nad oes awydd arnynt am adnabod neb o'i neillduolion cymeriadol ef. Ond pa ddiben cwyno? Gwneud y gorau o'r presennol yw ein dyletswydd. Cafodd yr awdur bleser a budd yn y gwaith fel y mae, a'n hyder yw y cei dithau, ddarllenydd hynaws, flas arno a bendith trwyddo. Ac i'r sawl sydd yn chwilio am feiau ac yn byw arnynt, dyma le bras iddynt.

Gyda golwg ar Waith Cyndelyn, nid detholiad ydyw. Ond awyddai'r teulu i'r oll oedd ar gael ganddynt fod i mewn. Gwyddis y gallesid cryfhau ambell i bennill a llinell, ond nid ei eiddo ef fuasent wedyn. Felly daw ei waith i'r darllenydd fel y gadawodd ef mewn llawysgrifen, ag eithrio'r orgraff. Buasai'r Golygydd yn caru rhoddi nifer o'i bregethau i mewn, a diau y buasent yn ddiddorol a derbyniol, ond nid oedd y teulu yn awyddus, gan y buasai'n mwyhau'r llyfr ac yn ychwanegiad at y gost o'i ddwyn allan.

Eiddunwn fendith Duw pob gras ar y gwaith syml hwn, gan hyderu y bydd yn nerth i'r saint i fod yn ffyddlonach ar eu gyrfa. Ac os cyfyd awydd mewn un enaid am fod o'r un nodweddau â Tomos Efans (Cyndelyn), bydd yn ateb pwrpas ei ysgrifennu a'i gyhoeddi. Nawdd Duw fyddo dros ei deulu annwyl, a throsot tithau, ddarllenydd hoff.

Yr eiddoch byth yn bur,

J. GWYDDNO WILLIAMS.

LLYS NEFYDD, LLANNEFYDD,


TREFNANT, Gorffennaf, 1935.

MYNEGAI I'R COFIANT

- Addysg ei gyfnod, 3, 4
 Addysg Cymru, 4
 Atodiad, 20
 Achosion Newydd, 27
 Bardd a Llenor, Fel, 15
 Bedydd, Rhoddai bwys mawr ar, 6
 Beirniad, Fel, 15
 Briod, Ei, 8
 Brad y Llyfrau Gleision, 3
 Bregeth, ei Fywyd a'i, 12
 Bregeth, yn gwybod ei, 14
 Cof, Er, gan Parch. B. Davies, 30
 Cowper, William, 14
 Croesau, Ffarm y, 6
 Cwmni yr L.M.S., 7
 Cyngor Hen Weinidog, 27
 Cynnyrch ei gyfnod o athrylith, 4
 Cynrychwr llên ei gyfnod, 4
 Cyflwyniad, Y, ii
 Darlennydd, Gair at y, iii
 Dechrau gweithio, 4
 Dechrau pregethu, 8
 Deddf y Bwrdd Ysgol, 4
 Deddfau yr Yd, 3
 Deulu, ei, 1, 2
 Diwygiad '59, Plentyn y, 7
 Drigfan, ei, adeg ei ymadawiad, 19
 Ddychweliad, ei, at yr Arglwydd, 5
 Ddyddiaduron, ei, 10
 Ddyrchafiadau, ei, 7, 14
 Ei Fedyddio, 6
 Efengyl, Llonder yn ei llwydd, 28
 Eglwysi, ei wasanaeth i'r, 10
 Eisteddfodwr, yn, 17
 Farw, ei, a'i gladdu, 19
 Ffyddlondeb, ei, i'r Eglwysi, 12, 18
 Fforddlas, ei wasanaeth yno, 12
 Gonwy, ei symud i, 7
 Gonwy, rhoddi i fyny ei ofal am, 9
 Gwalchmai'n eu priodi, 8
 Harris, y Parch. B. D., 20
 Hughes, Hugh, y Graig, 6
 Ifans, Ifan, ei dad, 2
 Jones, Edward E., America, 6, 23
 Llenyddiaeth ei gyfnod, 4
 Mesurau cerdd dafod, 15
 Moddiannau gras yn werthfawr, 6
 Nghonwy, yn yr Iard yng, 7
 Nghonwy, byw yng, 8
 Nghonwy, yn weinidog yng, 9
 Nodiadau ar ei gymeriad, 17
 Owen, y Parch. R. T., 25
 Pregethwr cynorthwyol, 8, 9
 Pregethwr, fel, 13
 Pregethwyr mawr, un o'r, 14
 Priodi, yn, 8
 Prentisio yn asiedydd, 6
 Riëni, ei, a'i faboed, 2, 3
 Roe Wen, 12
 Taflen ei Deithiau, 10
 Taflen ei Deithiau, eglurhad, 12
 Tyfiant Tomos Efans, 5
 Uchelgais, ei, 16
 Williams, Dr., 6
 Williams, W., Ysw., A.S., 4
 Ysbryd, ei, Cristnogol, 17
 Ysgolfeistri ei gyfnod, 3

MYNEGAI I'R GWEITHIAU BARDDONOL

- Atgofion bore oes, 48
 Atgofion am fy hen gartref, 41
 Afiechyd yr iau, dan, 84
 Bangor, Cyhoeddw'r Penuel, 59
 Bedd, Iaith y, 54
 Blawd, Gochelwch ŵr y, 60
 Bryndaionyn, Llongyfarchiad, 71
 Bugail, Y (buddugol), 34
 Bugail, Y, 81
 Cetawco (buddugol), 35
 Coedwigwyr, Hen Urdd y, 52
 Conwy, Cylchwyl (1881), 85
 Conwy, Eisteddfod (1890), 78
 Conwy, Eisteddfod (1896), 50
 Conwy, Eisteddfod Nadolig, 72
 Côr Conwy yn Fforddlas (1882), 77
 Côr y Llan yn Fforddlas, 85
 Côr Cymreig, Buddugoliaeth y, 70
 Cristion, Y, ar ei daith, 36, 71
 Crydd, Y, 80, 81
 Cybydd, Y, 36
 Cyngor i Ieuentid, 51
 Cymru ac Addysg yn 1895, 51
 Cynddelw, ei farf fawr, 38
 Cynddelw, Marwolaeth, 74
 Dauwynebog, Y Chwedleuwr, 52
 Dauwynebog, Y, 41
 Davies, John, Codau, Er Cof am, 40
 Diog, Y, a'r Morgrugyn, 35
 Dirwestol (Dadl yr "Herald"), 65
 Dolwyddelen, Cerddorion, 71
 Dymuniad, 46
 Dymuniad am wir grefydd, 71
 Efans, Marw'r Parch. John, 54
 Efans, Marw Emrys, bach, 65
 Eglwysbach, Bryndaionyn, 47
 Eglwysbach, Eisteddfod, 50
 Eglwysbach, Bryn Seion, 69
 Ehedydd, Yr (buddugol), 81
 Fwyell, Y, 73
 Fforddlas, Cyngherddau, 72, 78,
 84, 85
 Ffoulkes, John, y dall, 60, 67, 85
 Ffugchwedl y "Faner" (1874), 64
 Ffyddlondeb hyd Angau, 83
 Gaernarfon, Etholiad Sir (1874), 66
 Grefydd, Dymuniad am, 35
 George, R. W., Ar ôl, 38
 Gwan a Datod, 61
 Gweddi, 34
 Gwragedd wrth y Groes, Y, 34
 Harris, Darlith y Parch. B. D., 73
 Hen Lanc, Yr, 59
 Hughes, Efan, Rhyl, am rodd, 61
 Hughes, John, Birkenhead, 63
 Hughes, Parch. W., Colwyn Bay, 75
 Hughes, Will, Caergybi, 43
 Jones, diweddar David, Colwyn, 65
 Jones, Parch. G. R., 58
 Jones, Parch. John, Llanberis, 68
 Jones, Parch. John Emlyn, 66
 Jones, Mr. (Seiriol Wyn), Caer-
 gybi, 55, 61
 Jones, Mr. Lewis, Llanddulas, 56
 Jones, Miss, Birkenhead, 85
 Judas, Cusan, 73
 Lewis, Dr. Gomer, 87
 "Llais y Wlad" (Toriaidd), 80
 Llanelian, Cyfarfod Llenyddol, 51
 Llanelian, Cymanfa, 67
 Lluniwr bai lle na bo, 56
 Llygoden, Y (buddugol), 35
 Llygoden, Y, 81
 Marks, J. T., Ysw., C.S., 40
 Môn, At Etholwyr, 63
 Moriah, Cyfarfod Llenyddol, 48
 Moriah, Tanyffordd, Llanddulas, 46
 Nhad, Ar ôl fy, 75
 Penrhyn, Lord (1874), 57
 Pochin, H. D., Esq., 76
 Prenol, yr hyn a glywir o'i ben, 80
 Prichard, Dr., Conwy, 73
 Prichard, Dr., fel llywydd, 59
 Profiad v Cristion, 55
 Pluen ar yr Afon, 45
 Roberts, Sarah, Factory, 38
 Roberts, Parch. J., Pontllyfni, 37
 Roe Wen, Eisteddfod (1874), 57
 Salmydd, Y (cyd-fuddugol), 51
 Tomos, Mrs. Hannah, Er Cof, 81
 Wawr, Y, 37
 Wawr goch ar fachlud haul, Y, 35
 Williams, Mr., Mrs. a Miss, 77
 Williams, Er Cof am David, 43
 Williams, Mr. Richard, Furnace, 76
 Williams, Sushannah, 'Rvnys, 38
 Williams, Mary, 'Rvnys Fawr, 69
 Williams, Rowland a Mary, 38
 Wilson, Mr. W., a Miss Owen, 64
 Ysgolfeistr, Yr, 60
 Ysgol Sabothol, Gwahoddiad i'r, 46



Y DIWEDDAR BARCH.
TOMOS EFANS (CYNDELYN)

Y DIWEDDAR BARCH. TOMOS EFANS.

MAB ydoedd y gŵr annwyl uchod i Ifan a Margaret Ifans, Y Graig, Glan Conwy. “Bwthyn bach tô gwellt” oedd cartref dedwydd Ifan a Margaret Ifans, lle y buont yn ddarbodus, gofalus, a thyner iawn i fagu chwech o blant yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Dysgent eu plant mewn geiriau ac esiampl. Nid oedd neb yn yr oes honno, oddeutu can mlynedd yn ol, mwy nag sydd yn yr oes oleu a breintiedig hon, fedrai roddi gwell addysg i blentyn na rhieni crefyddol yn teimlo eu cyfrifoldeb fel y cyfryw. Rhieni felly gafodd y diweddar Tomos Efans. Rhinweddau athrawon ydynt athrawon rhinweddau. Y mae hyn, yn ol natur pethau, yr un mor wir ag ydyw yr hen ddiareb Gymreig:— mai “Pechodau athrawon ydynt athrawon pechodau.”

Gŵr duwiol, amlwg a defnyddiol oedd Ifan Ifans, ac fe chwareuodd ran bwysig iawn gyda gwaith yr Arglwydd yn Salem, Fforddilas. Yr oedd yn Fedyddiwr cadarn, a selog dros y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu; yn llenwi y swydd o ddiakon hyd yr ymylon, mewn ysbryd a gwaith, ac yn arweinydd diogel mewn byd ac eglwys yn y lle hanesyddol uchod. Ac yr oedd dylanwad amlwg y gwirionedd ar ei fywyd ef ei hun yn ddylanwad distaw,

sanctaid, ac amlwg iawn ar ei deulu, ac ar bawb y deuai i gyffyrddiad â hwy. Gŵr gwastad ei fywyd oedd Ifan Ifans; dyn gonest ac ymroddol pa le bynnag y byddai ei ddyledswydd. Yr oedd ar ei oreu yn y capel, yn ei deulu, ac ar y ffordd fawr, lle yr oedd ei alwedigaeth feunyddiol. Cadwai Ifan Ifans yr ysbrydol yn uchaf bob amser, a gwnai bob peth megis i'r Arglwydd ac nid i ddynion, nid gyda llygad wasanaeth fel boddlonwr dynion, ond mewn symlwydd calon, yn ofn Duw.

Ac fel ei dad, un felly yn union oedd y diweddar Barch. Tomos Efans (Cyndelyn). Pan ydoedd yn fachgen, ac wedi tyfu i fyny, dwys a difrifol oedd ei fywyd yn wastad, a phob amser fel y wenylen yn ddiwyd gyda'i waith. Gŵr ymroddgar a hunan-aberthol fu ar hyd ei oes ddefnyddiol.

Diau mai amherffaith iawn oedd yr addysg a gafodd o'r tu allan i'w gartref, ac yr ydoedd wedi troi allan i weithio efo ffarmwrs cyn ei fod yn ddeuddeg oed, a'r peth tebycaf yw fod yr "ysgol ddyddiol" a gafodd cyn hynny y peth nesaf i fod heb ddim ysgol o gwbl, i gyfarfod â gofynion dyfodol ei fywyd.

EI ENEDIGAETH A'I FABOED

Ganwyd ef yn y flwyddyn 1837. Can mlynedd o fewn un i'r flwyddyn hon.

Dyddiau geirwon oedd y dyddiau hynny, y cyflog yn fychan, a'r ymborth yn brin. Trwy ddeddf 3 George

IV, pen. 106, 1822, pasiwyd i werthu bara wrth ei bwysau. A blwyddyn cyn geni ein hanwyl frawd pasiwyd Deddf 6 a 7, William IV, pen. 37, i reoleiddio gwerthu bara. Yn 1836, ac yn y blynyddoedd rhwng 1830 a 1840, yr oedd pris y bara rhwng 10½d. a 9d. am dorth 4 pwys. Dyddiau "Deddfau yr Yd." Gwelwn felly i'n brawd a'n cyfaill gael ei eni yn y flwyddyn y bu farw y brenin William IV, ac yr esgynodd y frenhines Victoria i orsedd Prydain. Felly cafodd fyw ei theyrnasiad hi ar ei hyd, a theyrnasiad Edward VII, hyd 1908. Pwy na chlywodd am galedi y 40ties, fel eu gelwir cyn diddymu deddfau yr yd yn 1846. Ac mor ddifrifol oedd cyflwr addysg yn y Dywysogaeth yn y cyfnod, yr oedd yn ddifrifol o wael ei ansawdd, a'r wlad yn dioddef o'r herwydd. Cafwyd y Gyfundrefn Genedlaethol o Addysg yn 1834, rhyw dair blynedd cyn geni ein brawd. ac o'r adeg honno, efallai y gallwn olrain y deffroad addysgol yng Nghymru yn 1847, pan ydoedd ein gwrthrych yn 10 mlwydd oed. Nid oedd ond 841 o ysgolion yng Nghymru y flwyddyn honno, a'r rhai hynny gan mwyaf yn ysgolion eglwysig. Da oedd cael y pryd hwnnw rhyw fath o ysgol, a rhyw fath o ysgol-feistr. Ei brif gymhwyster oedd ei fod yn medru tipyn o Saesneg. Ceid yr ysgol-feistri yn gyffredin o blith hen filwyr; rhyw un wedi bod yn Lloegr am yspaid, neu wedi bod yn gwasanaethu gyda Saeson yng Nghymru. Fel hyn ganwyd "Tomos Efans, Fforddlas," pan oedd Cymru yn dechreu deffro, rhyw ddylanwad cyfrin fel yr haul yn y bore yn goglais bywyd cysglyd gwerin ein gwlad annwyl. Pan y clywodd ac y deallodd ein cenedl fod y Saeson yn ei difrio, ac mai nid digon ganddynt oedd ein gormesu a sathru ein hawliau fel dineswyr o dan eu traed, ond y ceisient ein gwneud fel cenedl yn wawd i'r byd, hyd yr oedd yn eu gallu, a hynny yn bennaf o achos ein hymlyniad wrth ein hiaith a'n Hanghydffurfiaeth.

Siarad yr ydym am ddyddiau "Brâd y Llyfrau Gleision." Yn ei ddyddiau ysgol ef, yr oedd William Williams, Ysw., A.S., Coventry, yn codi ei lais yn y Senedd ac yn-y wasg dros addysg Cymru, pan, er gwaethaf y Saeson a'r clerigwyr y cafwyd Deddf yr

Ysgolion Brutanaidd, yr hon oedd i'w gweithio ar linellau anenwadol. Ac yng nghanol helyntion y cyfnod, yr oedd Tomos Efans yn blentyn, y gosodwyd i lawr seiliau y Gyfundrefn Addysg sydd gennym heddiw, ond sydd heb ei pherffeithio eto. Cerddai ein brawd drwy yr helyntion hynny yn fachgen diniwaid a meddylgar, ond digon posibl mai ychydig a wyddai am y nerthoedd mawrion dyfent o'i gwmpas hyd nes iddynt ymgorffori yn ffeithiau yn Neddf y Bwrdd Ysgol, a'r Ysgolion Canol a'r Prifysgolion i Gymru, y rhai y cafodd fyw i'w gweled ledled y Dywysogaeth. Diau iddo gael llawer o fwynhad ac ysbrydiaeth yng nghyffroadau cyfnod ei faboed. Ond nis gallwn feddwl iddo gael llawer o help personol allan o honynt, oherwydd amlwg yw ei fod wedi gosod ei nôd o'i flaen; a chan ei fod wedi dechreu gweithio yn ddeuddeg oed rhaid mai defnyddio ei ben a'i bastwn ei hun a wnaeth, a gwneyd ei hun yn athro iddo ei hun, fel y bu raid i lawer ereill wneud yn y cyfnod hwnnw. Rhaid i bawb gydnabod fod y cyfnod cyn 1860 dyweder, wedi cynyrchu enwd o ddynion athrylithgar a diwylliedig, y rhai a adawsant waddol mawr mewn Llên, Barddoniaeth a Cherddoriaeth i oesau sydd i ddod. Meddylier am Lenyddiaeth gofnodol y cyfnod, a'r darllenwyr oedd yn y wlad y pryd hwnnw. Nid oes ond eisiau cymharu dyweder o 1850 hyd 1890, ddeugain mlynedd, ac o 1890 hyd 1930, deugain arall, er gweled y gwahaniaeth yn ansawdd y Lenyddiaeth ac yn chwaeth y darllenwyr. Dynion wedi eu magu mewn anfanteision oeddynt gynyrchwyr y Llenyddiaeth o 1850 hyd 1890; a dynion wedi cael y manteision goreu fedrai yr ysgolion goreu, yr Ysgolion Canol a'r Prifysgolion ei estyn iddynt.

ydant gynrychwyr ein Llenyddiaeth o 1890 hyd 1930. Y mae yr Eisteddfod, y wasg, a'r Pulpud yn eu dwylaw. Beth sydd yn bod, tybed?

Tyfodd Tomos Efans yn gymeriad cryf, disglair, a diwylliedig trwy yr anafanteision mwyaf, ac uwchlaw popeth, tyfodd yn gymeriad defnyddiol, buddiol mewn byd ac eglwys.

Gwnaeth ef y goreu o'i holl anafanteision i amaethu a diwyllio ei feddwl, defnyddiodd bob cyfle. Nid oedd fawr o hamdden i'w gael y pryd hynny, codi yn fore, a myned yn hwyr i gysgu. Gwaith, gwaith, gwaith, a ddisgwylid gan ddyn a hogyn, gwas a morwyn; dim son am seibiant ac adloniant. Rhaid oedd trefnu yr oriau hamdden rhwng wyth o'r gloch y ros a phump o'r gloch y bore. Efallai fod yr oriau yn llai wedi ei brentisio yn asiedydd; o chwech y bore hyd chwech yr hwyr, efallai. Wel, mewn amgylchiadau fel yna y gosododd y diweddar Barch. "Tomos Efans, Fforddlas," i lawr seiliau ei fywyd dedwydd, defnyddiol a llwyddianus iawn, bywyd o wasanaeth gwerthfawr i Dduw a dynion.

EI DDYCHWELIAD AT YR ARGLWYDD A'I FEDYDD, A'I FLYNYDDOEDD CYNTAF.

Dywedwn ei "Ddychweliad" yn fwriadol. Nid ydys yn meddwl iddo erioed fod yn fachgen ofer. Na, bachgen dwys a difrifol ydoedd bob amser. Nid oedd ef mwy na phlant eraill yn arfer aros yn y gyfeillach. Gofalaf ei rieni am ddysgu eu plant yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd, fel y gwnaeth ei fam a'i nain gyda Timotheus, ond yr oedd yn rhaid iddo ef, fel Timotheus, benderfynnu y mater drosto ei hun, ie, fel pob mab a merch gyda'r Bedyddwyr. Nid ydym yn dal neb trwy ddichell yn eu hanwybodaeth; na, y rhai sydd yn derbyn gair yr Arglwydd yn ewyllysgar a fedyddir gennym bob amser, hyd y gwyddom. Rhaid i bob un rhoddi ei hun i'r Arglwydd, ac i'w bobl yn ol ei ewyllys. Felly y gwnaeth Tomos Efans. Pan ydoedd wedi troi ei ddeuddeng mlwydd oed, yr ydoedd yn hogyn yn y Croesau, ac wedi aros yn y gyfeillach yn y Fforddlas, a'i ffydd a'i wybodaeth wedi eu profi. Yn y

flwyddyn 1849, yn y mis Mai, bedyddiwyd ef a'i gyfaill, Edward E. Jones, ac eraill na wyddis eu henwau, yn Llyn y Felin, gan y diweddar Barch. William Roberts, y gweinidog annwyl ac adnabyddus hwnnw.

Gwnaethant broffes dda o'u ffydd yn Iesu Grist fel eu Gwarddwr.

Ymroddodd y ddau gyfaill ieuanc i fynychu'r moddiannau yn Salem, Fforddlas, ac i wneud popeth yn eu gallu gydag achos yr Arglwydd yno. Ymarferion crefyddol oeddynt yn sicr, o dan fendith Duw, o sancteiddio eu cymeriad, a maethu eu tyfiant mewn gras ac yng ngwybodaeth ein Harglwydd a'n Hachubydd Iesu Grist, ac o'u newid hwy a phawb arall yn raddol i fod yn un ffurf â delw ei Fab Ef. Gresyn na ellid argyhoeddi holl broffeswyr crefydd yr oes freintiedig hon mai dyma bwrpas ysbrydol moddiannau gras. Peth amhosibl i'r rhai anffyddlon i'r moddiannau, ydyw cynyddu mewn gras ac yng ngwybodaeth am Dduw, ac ni ddaw y cyfryw byth ar ddelw yr unig anedig Fab heb newid eu ffyrdd.

Gwelodd ein brawd werth yn y moddiannau, a bu yn ffyddlon iddynt ar hyd ei oes. Ni ellid cymdeithasu â Tomos Efans heb deimlo fod ei gymdeithas yntau yn wir gyda'r Tad a chyda'i Fab Ef, Iesu Grist.

Y mae gobaith am gadw pob mab a merch roddant bwys ar eu bedydd, ac sydd yn byw i'w egluro i'r byd. Pobl ddieithr i'r Arglwydd, yn sicr, yw'r bobl broffesant ei enw, ac sydd yn anffyddlon i foddiannau gras. Bu'n gweini yn yr ardal mewn amryw leoedd, megis y Croesau a'r Llan, gyda Dr. Williams, &c., &c. Prentisiwyd ef gyda Mr. Hugh Hughes, y Graig, i fod yn Asiedydd. Gŵr a gariai ymlaen fasnach bwysig, oedd yn adnabyddus iawn i gylech eang mewn byd ac eglwys oedd Hugh Hughes. Cadwai weithwyr, ac yr oedd yn ŵr amlwg a phwysig gyda'r Achos yn Salem, Fforddlas, ac wedi i'n gwrthrych fyned trwy ei ddwylo ef, yr ydoedd yn addas i fyned i bob man wedi hynny, ac yr oedd erbyn hyn yn ŵr ifanc tair ar hugain mlwydd oed; wedi dysgu ei grefft, wedi ennill ffafr ei feistr, ac wedi gwneud lle annwyl iddo ei hun yn yr eglwys yn Salem, Fforddlas, ac yn yr holl ardal, fel gŵr ifanc y gellid ymddiried

ynddo, yn gymeriad cryf, gonest, a diymffrost, wedi ei drochi yn ysbryd a nerthoedd dwyfol "Diwigiad 1859," a'i fywyd yn addewid am ddyn gwerthfawr i'r eglwys Gristionogol ar y ddaear, ac ni siomwyd neb ynddo. Daliodd i dyfu o'r adeg y daeth at yr Arglwydd hyd ddiwedd y daith mewn rhinwedd a defnyddioldeb.

EI SYMUDIAD I GONWY.

Dyma y symudiad cyntaf yn ei hanes wedi'r symudiad mawr o'r tywyllwch i'r goleuni. Nid oedd Conwy ymhell o'r Fforddlas, rhyw bedair milltir a hanner, ond pan y mae dyn yn myned oddi cartref am y tro cyntaf, y mae pob man ymhell, a phawb yn ddieithr, eisiau ffurfio cyfeillion newydd, a gwneud lle newydd iddo ei hun mewn amgylchoedd newydd. Pan oedd ein brawd yn rhyw dair ar hugain mlwydd oed, yn y flwyddyn 1860, cafodd le yn Iard y Ffordd Haiarn, yng Nghonwy y pryd hwnnw, Bangor yn awr.

Saer coed ydoedd, ac yn weithiwr da, distaw a diwid; ac wedi bod yno am ychydig flynyddoedd, oherwydd ei waith a'i gymeriad, cafodd ffafr yng ngolwg ei gyflogwyr, ac fel Joseff yn yr Aifft, dyrchafwyd ef i fod yn benweithiwr (**foreman**) ar y Seiri coed, a chafodd y Cwmni y fantais o weled ei werth yn y safle honno. Dyrchafwyd ef drachefn, wedi ychydig flynyddoedd, i fod yn Arolygydd y Pontydd, Dosbarth Bangor (Bridge Inspector). Swydd bwysig, cyfrifoldeb mawr yn perthyn iddi. Rhaid oedd iddo fod yn medru ar bensaerniaeth, tynnu planiau, a bod yn gyfarwydd âg egwyddorion adeiladaeth pontydd, &c. Ymddiriedai y cwmni ynddo am y gwaith pwysig hwn. Llanwodd y swydd bwysig yma er bodlonrwydd i'w gyflogwyr ac anrhydedd iddo ei hun hyd y flwyddyn 1904, pan yr ymddeolodd ar ei flwydd-dâl. Oherwydd yr ymddiried oedd ganddynt ynddo, cadwasant ef gyda'i waith ddwy flynedd o leiaf dros yr amser arferol i'w gwasanaethyddion ymddiswyddo. Ac ar y 26ain o Dachwedd, 1904, daeth cynrychiolwyr y gweithwyr yn yr Iard i'w bresantu ac i gyflwyno iddo eu dymuniadau da yn ei gartref yn Glan Conwy.

YN PRIODI, AC YN GWNEUD CARTREF IDDO EI HUN.

Wedi ei sefydliad yng Nghonwy, yn 1860, cael gwaith sefydlog o fewn llai na dwy flynedd—1861 neu 1862—priododd âg Ann, merch Ellen Jones, Bryn Goleu, Ochr y Penrhyn, ger Llandudno. Tyddyn bychan oedd Bryn Goleu, ag ydyw, hyd y gwyddom. Ni wyddis enw ei thad. Merch oedd ei mam—Ellen Jones—i John ac Ann Jones, Bryn Goleu. Pan oedd Ann, a ddaeth wedi hynny yn wraig y Parch. Tomos Efans, yn ychydig fisoedd oed, bu farw ei mam o'r **Typhoid Fever**, a chyda'i thaid a'i nain yn y Bryn Goleu y magwyd priod ein gwrthrych, yn annwyl a gofalus. Cafodd bob mantais ag oedd yn eu gallu i'w rhoddi iddi mewn addysg, &c., a rhoddasant iddi grefft, sef hetwraig (**Milliner**). Nid ydys yn gwybod hanes John ac Ann Jones, Bryn Goleu, mewn unrhyw fodd. Tueddar ni i gredu mai Annibynwyr oeddynt, am yr unig reswm mai yn Llandudno y priodwyd Miss Ann Jones, gyda gwrthrych y gwaith hwn. Priodwyd hwy gan y diweddar Barch. Richard Parry (Gwalchmai), gŵr adnabyddus ac enwog yn ei ddydd.

Y mae gennym sail i gredu mai yng Nghonwy y gwnaeth Mr. a Mrs. Tomos Efans eu cartref wedi iddynt briodi, a'i fod yn gartref hedd. Bu iddynt naw o blant, sef chwech o feibion a thair o ferched. Cafodd saith o honynt fyw i weled claddu eu tad—pedwar yn unig sydd yn fyw heddyw—yr oll wedi eu magu yn annwyl a gofalus. Cawsant bob hyfforddiant yn ddiau i'w cychwyn ar ffordd y bywyd pan o dan ofal eu rhieni.

DECHREU PREGETHU A'R BLYNYDDOEDD YNG NGHONWY.

Y mae cryn dywyllwch ar ei hanes yn y wedd a'r cyfnod yma. Yma y bu y drafferth fawr, ac er chwilio a holi ni ddaeth goleuni. Dywedir iddo ddechreu pregethu yn 1859, a chael ei ordeinio yng Nghonwy yn 1863. Peth digon naturiol i wr ifanc o'i dueddiadau crefyddol ef, ac yntau yn ddwy ar hugain mlwydd oed, yng nghanol y dylanwadau nerthol hynny, oedd bod yn barod i wneud popeth dros ei Arglwydd. Cadwai yr enwad gyfrif o'u gweinidogion a'u pregethwyr.

Y mae llythrau y cymanfaoedd o'm blaen, ac nid oes air o son am Tomos Efans fel pregethwr cynorthwyol hyd y flwyddyn 1866. Yn y flwyddyn hon cawn ei enw y tro cyntaf fel pregethwr cynorthwyol—"T. Efans, Conwy." Ni chadwai y Gymanfa (D. F. a Meirion) restr o'i phregethwyr cynorthwyol cyn y flwyddyn 1866. Gallai ei fod yn pregethu er 1859, ond yn Llythyr 1866, fel pregethwr cynorthwyol, ac fel "T. Efans, Conwy," y cawn ei enw gyda'r pregethwyr cynorthwyol, hyd y flwyddyn 1868. Felly, yno yr oedd yn byw, ac yn aelod. Yn 1869 cawn ei enw gyda'r pregethwyr cynorthwyol fel "T. Efans, Fforddlas," wedi dod yn ei ol i fyw i'w hen ardal, ac yma y cawn ef yn yr un cymeriad hyd 1874. Yn 1875 ceir ef yn weinidog Conwy, yng Nghymanfa Arfon yn awr. Yr oedd Llandudno, Glanwydden, Conwy a'r Roe Wen yn aelodau o Gymanfa D. F. a Meirion cyn 1870. Derbyniwyd y pedair, trwy lythyr, i Gymanfa Arfon, a gynhaliwyd ym Mhwlheli, Mehefin, 1870.

Rhaid felly mai yn 1875 yr ordeiniwyd ef i fod yn weinidog Conwy. Yr oedd rhif yr Eglwys y flwyddyn honno yn 23, a 28 yn yr Ysgol Sul. Rhywbryd cyn Mehefin, 1877, rhoddodd i fyny i ofalu fel gweinidog am Gonwy, a chawn ef yn "weinidog heb ofal," wedi dod yn ei ol i Gymanfa D. F. a Meirion, ac yn aelod o'r Fforddlas, ac felly y parhaodd am 31ain mlynedd yn weinidog heb ofal. Bu'n ffyddlon a defnyddiol iawn yn y cylchoedd agosaf i'w gartref. Ni pheidiodd a gwasanaethu Conwy yn ffyddlon ac yn effeithiol wedi rhoddi i fyny eu gofal fel gweinidog. Yr oedd aelodau Conwy yn 32 yn 1877. Nid oes air am ei symudiadau yn y naill gymanfa na'r llall, ond yn yr ystadegau. Nid oedd neb mwy derbyniol na "Tomos Efans, Fforddlas," yn holl eglwysi y cylch. Bu'n ddiwid a ffyddlon yng ngwasanaeth ei Feistr hyd y diwedd.

Nis gallai fyned ar y Suliau ond i'r manau hynny lle y gallai fynd a dod, gan fod rheidrwydd arno i fod gyda'i waith ar y Lein o fore Llun hyd brynhawn Sadwrn. Ac yn gyffredin byddai ganddo deithiau pell i'w cerdded ar y Suliau. Cofiwn ef yn dda wedi cerdded ar fore Sul i daith Llangernyw; pregethu dair gwaith, ac eisiau

myned yn ol nos Sul, ar bob tywydd. Gwelsom ef ar nosweithiau tywyll, gaeafol ac ystormus, yn gorfod ei wynebu. Gwyddom y byddai rhywun yn dod i'w gwrdd yn y blynyddoedd olaf, ac y byddai y diweddar Mr. Robert Williams, Ffrith y Llan, coffa da am dano, yn rhoddi cymorth amserol iddo yn fynych.

Gwnaethi bethau y buasai yn waith anodd cael neb i'w gwneud heddyw. Cafodd yr ysgrifennydd fenthyg tri o'i ddyddiaduron, y rhai a ddangosent beth oedd ei destunau, a pha le yr ydoedd bob Sul am oddeutu hanner ei oes fel pregethwr. Ac os byddai rhywbeth eithriadol, megis bedyddio, ceir popeth i lawr yn drefnus. Gresyn na fuasai yr oll o'i ddyddiaduron ar gael i bwrpas y byrgofiant hwn. Buasent yn wir ddiddorol a buddiol. Byddai galw mawr am ei wasanaeth; damwain oedd ei gael yn segur ar y Sul. Dau beth a'i cadwant gartref, sef, gwaeledd, a thywydd eithriadol o arw.

TAFLEN EI DEITHIAU.

Taflen a ddengys deithiau a llafur gweinidogaethol y diweddar Barch Tomos Efans (Cyndelyn), yr hon a gymer i mewn y blynyddoedd 1879-1883, 1889-1901, a 1901 hyd Rhagfyr, 1907, o fewn dau fis i'w farw. Felly gwelir fod o'r amser y dechreuodd bregethu hyd ganol Medi, 1879, ac o 1883 hyn Ionor, 1889, oddeutu ugain mlynedd o ddechreu a chanol ei fywyd gwerthfawr heb fod gennym gyfrif am danynt. Dyma y daflen:—

Y Lleodd y bu yn Pregethu ynddynt.	Nifer y Pregeth- au ymhob lle.	Bedyddio, Pregeth Angladd.	Pellter o'r Ffordd- las.	Cyflus- tra Teithio.	Methu myned gan waeledd a thywydd garw.
Abergele	6	Trên ...
Aberffraw, Môn	1	Trên ...
Axtyn	4	Trên ...
Bagillt	4	Trên ...
Bangor	23	Trên ...
Beaumaris	2	Trên ...
Bethesda	2	Trên ...
Birkenhead	6	Trên ...
Brynrhys (A.)	39	...	1	...	Cerdded ...
Rodgynwch	134	...	9	...	Cerdded ...
Bontnewydd	3	...	10	...	Cerdded ...

Y Lleoedd y bu yn Pregethu ynddynt. Nifer y Pregethau ymhob lle. Bedyddio, Pregeth Angladd. Pellter o'r Ffordd-las. Cyfleus-tra Teithio. Methu myned gan waeledd a thywydd garw.

Y Lleoedd y bu yn Pregethu ynddynt.	Nifer y Pregethau ymhob lle.	Bedyddio, Pregeth Angladd.	Pellter o'r Ffordd-las.	Cyfleus-tra Teithio.	Methu myned gan waeledd a thywydd garw.
Capel y Beirdd	3	Trên
Capel Gwyn, Môn	6	Trên
Caergybi, Hebron	4	Trên
Caerceiliog, Môn	1	Trên
Carrog (Llansantffraid G.D.)	1	Trên
Codau	133	...	9	...	Cerdded ... 6
Colwyn	8	...	6	...	Cerdded
Colwyn Bay	10	...	5	...	Cerdded ... 2
Conwy	175	...	4½	...	Cerdded
Corwen	1	Trên
Cynwyd	1	Trên
Deganwy	21	...	4	...	Cerdded ... 4
Eglwysbach	219	...	3	...	Cerdded
Ffestiniog, Calfaria, Moria, Seion	9	Trên
Fforddlas	278	B. 24 P.A. 2	Ei gartref
Ffynnongroyw	3	Trên
Gaerwen	1	Trên
Glanadda, Bangor	51	Trên
Glanwydden	9	...	5	...	Cerdded
Glyndyfrdwy	1	Trên
Gilfach	6	Trên
Groeslon	6	Trên
Llandudno, Tabernacl, Horeb, Salem	18	Trên
Cyffordd Llandudno ...	48	...	3	...	Cerdded ... 1
Eto—(A.)	9	...	3	...	Cerdded
Llandegfan, Môn	6	Trên i Menai B.
Llanddoget	71	P.A. 1	8	...	Cerdded
Llanddulas	83	...	9	...	Cerdded ... 2
Llanelian	95	B. 3	7	...	Cerdded
Llangernyw	144	B. 3	9	...	Cerdded ... 6
Llanefydd	3	...	10	...	(gwêl Codau) Cerdded
Llanfairfechan	6	Trên
Llanfair Talhaiarn, Soar, Llansannan, Plas-madog	11	P.A. 1	10	...	Cerdded
Llanrwst	20	...	9	...	Cerdded
Llysaen	31	...	8	...	Cerdded
Manceinion	4	Trên
Menai Bridge	8	P.A. 1	Trên
Pencarneddi	1	Trên
Penmaenmawr	44	Trên

Y Lleoedd y bu yn Pregethu ynddynt.	Nifer y Pregeth- au ymhob lle.	Bedyddio, Pregeth Angladd.	Pellter o'r Ffordd- las.	Cyffous- tra Teithio.	Methu myned gan waeledd a thywydd garw.
Penrhyn Side	4	...	6	...	Cerdded ...
Pontllyfni	2	Trên ...
'Rachub (A.)	2
Rhosllanerchrugog, Peniel, a Bethania...	2	Trên ...
Rhos Neigr	2	Trên ...
Rhyl	6	Trên ...
Roe Wen	509	P.A. 1	3½	...	Cerdded ... 18
Salem, Llanbedr	1	...	3½	...	Cerdded ...
Soar, Llanfair Tal- haiarn	1	Gwél Llanfair T.H.
Tre'rddôl	1	Trên i ...
Valley	1	Gorwen Trên ...
		P.A. 7			
Cyfanswm y Cyfnod...	2514	B. 45 54

Dylai y darlennydd gofio mai amcangyfrif o'r milltir-oedd i bob man, un ffordd, sydd gennym i lawr, felly dylid dyblu y cyfryw i gael rhyw syniad gwan am ei lafar di-flin. A chofied y darlennydd mai hanes gweinidog a ddilynai ei "ddiwrnod gwaith" yw yr uchod, ac nid un oedd yn y weinidogaeth feunyddiol. Cofier, hefyd, nad ydyw y daflen yn cynnwys ond oddeutu hanner ei oes fel pregethwr.

Er enghraifft, dywedodd un o ddiaconiaid y Roe Wen, ar ol marw ein hannwyl frawd, "Y mae ein diweddar frawd wedi bod yn hynod o ffyddlon i ni yn y Roe Wen. Yn yr amser y bu yn dyfod i'r Roe Wen pregethodd 1,152 o weithiau, cyfrannu yr ordinhad 576 o weithiau, a cherdded 11,520 o filldiroedd i'n gwasanaethu. Pwy na ddywed, 'Well done'? Ond nid yw hyn ond rhan fechan o'i lafur ef."

Byddai yn gwasanaethu yr eglwysi gartref yn Ffordd-las ac Eglwysbach bob pymthegnos am flynyddoedd yn olynol pan y byddent heb yr un gweinidog, ac wrth fyned trwy restr ei destunau, gwelir y byddai ganddo bregeth newydd bob tro. Yr oedd ei fywyd sanctaidd a'i brofiad dwfn a gwirioneddol o nerth a gwerth ysbrydol yr efengyl yn ei fywyd ef ei hunan yn sier o fod yn help iddo i

wneud pregethau, ac nid yn eu gwneud rhywsut y byddai; nage, yn siwr, gwnai ei bregeth fel pob peth arall o'i eiddo, wrth gynlun wedi ei feddwl yn ofalus, ac mewn trefn dda, a'r gwirionedd megis y mae yn yr Iesu wedi ei brofi hefyd, a'i weithio allan ym rwyd y Parch. Tomas Efans (Cyndelyn). Mwynhad di-ddarfod ydyw i'r hwn sydd yn byw yr efengyl ei phregethu, ond y mae gwrando y pregethau hynny, i'r bobl sydd heb brofiad o'r efengyl, yn sicr o fod y peth mwyaf diflas iddynt, a chyffredin yn eu golwg. Nid oedd ond y bobl oeddynt yn cael y gorau allan o'u proffes grefyddol, trwy fod ar eu gorau, yn gwneud eu dyledswyddau yn ofn yr Arglwydd, fedrant fwynhau pregethau Tomos Efans; i'r bobl hynny, aur a pherlau oeddynt i gyd.

FEL PREGETHWYR.

Yr ydoedd yn fuddiol, addysgiadol, ymarferol, mwy o sylwedd nag o swm. Elai i mewn i ystyr ac ysbryd ei destyn bob amser. Symleiddiai ei gynnwys, a deuai a phethau mawrion a gogoneddus yr efengyl i gylch dealltwriaeth ac amgyffredion ei wrandawyr oeddynt ar yr un lefel ysbrydol ag ef ei hun; amcanai at hynny a llwyddai i'w wneud hefyd.

Ceir ambell i bregethwr yn amcanu, ac yn gallu gwneud pethau syml yr efengyl yn bethau mawr, tywyll, a dyrus, na eilir eu deall. Os nad yw y pregethwr yn eu deall ei hunan, nis gall y dyn hwnnw obeithio cael neb arall i'w deall. Ac y mae pob lle i ofni fod llawer o bethau amherthynasol yn cael eu dweud o lawer pulpud am nad oes gan y pregethwr weledigaeth bersonol na phrofiad o nerthoedd y gwirionedd yn ei ysbryd ei hun. Un peth yw annereh cynulleidfa, peth arall yw pregethu yr efengyl; un peth yw gwylied beth a ddywed pob math o ddynion am y gwirionedd ac am bethau eraill cysylltiol, peth arall yw gwybod y gwirionedd, gwybod cariad Crist, yr hwn orfoda y pregethwr i ddweud y pethau a welodd ac a deimlodd am Air y bywyd. Y perygl mawr i ni fel pregethwyr ydyw bod yn gyfarwydd â llenyddiaeth Trefn fawr y Cymod; heb fod yn gyfarwydd â'i hysbryd. Gall pregethwyr felly synnu a diddorî eu gwrandawyr, ond nid eu lleshau. Pan y mae mwy o sôn am y pregethwr

mewn ardal wedi iddo fod yno nag am y Gŵr sydd yn destun y weinidogaeth, y mae rhywbeth heb fod yn iawn yn y bobl sydd yn gwneud hynny, ac yn y pregethwr hwnnw hefyd, fe ddichon. Y peth sydd yn hanfodol bwysig ydyw fod y pregethwr yn "gwybod y Ddysgeidiaeth," pa un bynag a fydd yn ddysgedig ai na fydd. Gwyddai "Cyndelyn" y "Ddysgeidiaeth." Yr oedd ganddo brofiad o'i nerth, ei gwerth, a'i chynnwys yn ei enaid ei hun. Amcanai yn wastadol roddi i'w wrandawyr yr hyn a wyddai, ac a brofai ei hunan. Yr oedd ei bregeth fel ei fywyd, yn dawel a dirodres; deuai ei bregeth trwy ei galon ef ei hun, a hawdd oedd gweled a theimlo wrth ei wrando yn ogystal ag wrth ymddiddan ag ef ei bod yn bwysig iawn yn ei olwg pa beth a ddywedai "ddoe" wrtho am "yfory" o hyd. Holai ei galon pa beth a wyddai am yr hyn a ddywedai bob amser. Caem yr argraff hon bob amser yn ei gwmmi ac wrth ei wrando yn pregethu. Ac yn y goleu hwn, gosodwn ef yn uchel ar restr pregethwyr mawr y Bedyddwyr yn ei oes. Nid y pregethwyr poblogaidd a feddyliwn, ond y pregethwyr mawr. Y pregethwyr mwyaf buddiol, fel y credwn, yw y pregethwyr mwyaf bob amser. Hoffaf ddisgrifiad Cowper o bregethwr. Etyb y diweddar Tomos Efans iddo yn llawn ni gredwn, heb eisiau gadael gair allan. Fel hyn y mae:—

"Would I describe a preacher I would express him simple, grave, sincere. In doctrine uncorrupt, in language plain, and plain in manner, decent, solemn, chaste, and natural in gesture, much impressed. Himself as conscious of his awful charge, and anxious mainly that the flock he feeds may feel it too; affectionate in look, and tender in address, as well becomes a messenger of Grace to guilty men.'

William Cowper, The Task, Vol II., Book II.
2nd Edition, London, 1786, p.p. 65

Dyna fo Tomos Efans heb ddim gormod o ansodd-eiriau.

Pregethai bob amser trwy eiriau detholedig, ac fel y lili dlos heb ddim geiriau, trwy ei gymeriad glân, Crist-debyg.

FEL BARD D A LLENOR.

Yr oedd " Cyndelyn " yn ŵr cyfarwydd a diwilliedig. Gallai gerdded mor heni ac ysgafndroed ar lethrau Parnassus. Yr oedd yn fardd wrth fraint a defod Beirdd Ynys Prydain. Ni wyddis pa le yr urddwyd ef. Tueddir ni i gredu mai yn " Arwest Glan Geirionydd," a hynny yn ol pob tebyg pan oedd yr Arwest yn ei bri mwyaf, yn amser Owen Gethin Jones, Trebor Mai, Ellis o'r Nant, Henry Gwynedd Hughes, Llenor o'r Llwyni, Clwydfardd Gwalchmai, Dewi Hafesp, Tudno, Fferyllfardd, I. D. Ffraid, Glan Collen, Ioan Cernyw, a Gwilym Cowlyd, Bangorian, ac eraill yn ddiau, nad ydys yn cofio am danynt yn bresenol. Nid y lleiaf o feirdd yr Arwest oedd Cyndelyn, ac nid oedd neb ohonynt yn ddiau yn fwy gostyngedig, dirodres a diymffrost nag ef. Yr ydoedd yn feistr ar y mesurau caethion fel eu gelwir. Rhodiai yn berffaith rydd yn hualau Dafydd ap Edmunt, a medrai fod yn syml a naturiol yn y mesurau rhyddion hefyd, fel y dengys ei weithiau.

FEL BEIRNIAD.

Mynych y gelwid arno i feirniadu, a chadwai ei wybodaeth a'i onestrwydd Lenyddol ei glorian yn gywir bob amser. Byddai ei feirniadaeth yn fanwl ac addysgiadol yn wastad. Awyddai am helpu y rhai mwyaf anobeithiol mewn cystadleuaeth. Nid oedd Cyndelyn fel y mwyafrif o feirniaid ein prif Eisteddfodau, am ladd pawb ond y goreuon; ac yn ol beirniadaethau heddiw, nid yw y beirniaid yn rhy garedig wrth lawer o'r ymgeiswyr goreu, y rhai allant wneud gwell gwaith na hwy eu hunain. Yn sicr, y mae bywyd yr Eisteddfod mewn perygl yn nwylo y bobl hyn heddiw. Nid gŵr fel yna oedd Cyndelyn; na, nid ymgymerei ef âg unrhyw orchwyl o'r fath oni allai ei wneyd er mantais i fywyd yr Eisteddfod a'r ymgeiswyr. Gŵr di-ddichell a naturiol oedd ef, a phob amser yn cerdded ar dueddau moesol ac uchel, chwaeth a barn dda. Gwyddai mai nid mesurau a chynganeddion yw barddoniaeth; gwyddai hefyd fod gwisg dda yn harddu enaid a chorff cerdd, gan nad beth a fyddai ei maint. Un o rinweddau amlwg barddas ydyw y gallu i roddi llawer mewn ychydig. Yr oedd bywyd

tawel Cyndelyn yn dweud llawer heb siarad dim. Dywaid y Trioedd mai:—"Tair sail awen: Rhodd Duw, ymgais dyn, a damwain bywyd." Prif waith y bardd yw "Caru Gwirionedd, Teimlo Gwirionedd, a Mynegi Gwirionedd." Dyna fu gwaith bywyd Cyndelyn; ei rinweddau oeddynt gyfaredd ei fywyd, ei gân, a'i bregeth. Dywed Ben Johnson y gwneir bardd yn cystal a'i eni. Pawb sydd yn cofio ein gwrthrych, gwyddant fod ôl y gwneud a'r geni yn amlwg iawn arno ef.

EI UCHELGAIS.

Nid oedd ynddo fawr o uchelgais. Yr ydym ar dir diogel, fel y credwn, pan ddwedwn nad oedd ynddo ddigon o'r math gorau o uchelgais. Amaethodd ein diweddar annwyl frawd holl argymhellion naturiol a chyfreithlon ei fywyd yn well na'r peth yma. Credwn na enir neb i'r byd heb fod ynddo ddigon o reddfau a nwydau i ateb gofynion dwyfol ei fodolaeth. Gall pob dyn amaethu ei nwydau i wasanaethu y drwg neu y da. Dylai pob un fedru llywodraethu holl nerthoedd ei natur trwy gael nerth gan ei Dduw i wneud hynny. Credwn mai cariad at y pur a'r dyrchafol ydyw mamaeth uchelgais gwir. Yn ol ein hadnabyddiaeth o Cyndelyn credwn fod y cariad hwnnw yn gryf iawn ynddo; eto rhaid fod ei tebygolrwydd yw mai hwnnw a rwystrodd dyfiant ei uchelgais gyfreithlon. Yr oedd yn weithiwr diwyd a gonest ym mhob cylch, ac ni welwyd ef ericed yn cardotau anrhydeddau o unrhyw fath, naddo, yn ddiau. Cafodd anrhydeddau, ond nid yr oll a haeddodd. Caiff llawer ormod o anrhydeddau, a llawer lai na'u haeddiant. Cymerodd ef a gafodd, a bodlonodd ar hynny, a diau fod hynny yn llawer gwell iddo na phe buasai uchelgais wedi mygu rhinweddau ei fywyd. Awyddai ef am fod yn fwy o ddefnydd yn y byd i'w gyd-ddynion nac am yr hyn a dderbyniai gan ddynion am ei lafur.

Lladron anrhydedd yw **Balchder** a **Hunan**, os cânt llywodraethu bywyd unrhyw un, ond nid oedd iddynt le na llywodraeth ym mywyd Cyndelyn. Talodd ef yn onest am bob anrhydedd a gafodd, ie, yn sicr, llawer mwy na gwerth y cyfryw hefyd.

Yr ydoedd yn Llenor diwilliedig, er mai ychydig a adawodd ar ei ol ond mewn pregethau a barddoniaeth. Ychydig a ysgrifennodd i'r Wasg. Wel, nid oedd ganddo amser i hynny. Y mae ar ei ôl gnwd toreithiog o bregethau mewn llawysgrifen, a chyhoeddir ei weithiau eraill yn y gyfrol hon.

YR EISTEDDFODWR.

Yr oedd Cyndelyn yn Eisteddfodwr pybur. Byddai galw mawr am ei wasanaeth fel beirniad ac arweinydd, fel y dengys ei waith yn y gyfrol hon. Nis gallai fyned yn bell oddi cartref—bu yn cystadlu weithiau, ac yn ben campwr hefyd yn ei dro fel pawb arall.

NODIADAU CYFFREDINOL AR EI GYMERIAD.

Rhaid ei fod wedi byw yn ddiwid a meddylgar ar hyd ei oes i gyflawni y gwaith a wnaeth, ac i gadw y safle a enillodd, a'i fod yn feistr ar ei waith a'i amgylchiadau. Ni fu erioed yn gryf ei iechyd, ond daliodd ati, a chadwodd ei orsedd fel brenin arno ei hun a'i amgylchiadau yn holl gylchoedd ei fywyd gwerthfawr. Gwr o deimladau dwys a thyner oedd efe, eto nid llwfrnydoedd. Nage, safai fel y graig yn y mor heb syflyd yn y stormydd dros gyflawnder a gwirionedd. Y nerthoedd cryfaf mewn bywyd yw cariad a thynerwch. Dyma dŵr cadarn i gymeriad pob dyn a dynes. Dyma yr unig alluoedd mewn bywyd fedrant lywodraethu y tafod fel y dywed y ddihareb Lladin:—"Power can do by Gentleness that which violence fails to accomplish, and calmness best enforces the imperial mandate." Digon gwir, a dyma ddwediad arall yn yr un iaith: "Gentle in manners, firm in reality." Dyna Cyndelyn i'r dim.

EI YSBRYD CRISTNOGOL A MADDEUGAR.

Gŵr tebyg iawn i'w Arglwdd oedd Tomos Efans, Fforddlas. Wynebair bob math o ddyinion ac amgylchiadau yn dawel a diofn. Gwyddai yn dda fod poen ar lwybr dyletswydd yn llawer iawn gwell na holl bleserau y byd ar lwybr anufudd-dod i ewyllys Duw; ac fel pawb

arall i'r graddau yr oedd yn caru y pur a'r rhinweddol. Yr ydoedd yn casau, pob gwedd ar bechod a llygredigaeth. Y mae cariad at y da yn gyfwerth â'i gasineb at y drwg. Goleuai ei ysbryd addfwyn a hynaws bob nos iddo yn sicr.

Gall pob dyn a dynes o'r ysbryd yma wynebu a cherdded trwy bob math o dywydd, digofaint a theimladau drwg byd annuwiol heb dderbyn unrhyw niwed.

Dywedodd rhywun nad oedd iddo elyn yn y byd. Pe gwybaswn fod hynny yn wir, ni fuaswn yn ysgrifennu ei Gofiant. Na, nid oedd Cyndelyn heb ei elynion, mwy na ffyddloniaid eraill yr Arglwydd Iesu Grist, ond methasant wneud dim drwg iddo fel y dymument. Diau fod ei fywyd tawel a dedwydd yn poeni llawer ar rhyw fath o bobl, a'i safle bwysig gyda chwmni y Ffordd Haearn yn poeni llawer ar eraill. Ond aeth ef yn ei flaen a'i waith gan dosturio wrthynt, a maddeu iddynt; megis y maddeuodd Duw er mwyn Crist iddo yntau. Ni soniai byth am ei elynion wrth neb ond ei Waredwr. Nid oes dim anymunol mewn bywyd, gan nad o ba gyfeiriad y daw, na fedr y Cristion dynnu cysuron fyrdd o'r cyfryw. Diau fod ein brawd annwyl yn ei oes wedi bwrw allan llawer o ysbrydion drwg; y mae tynerwch ac ysbryd maddeugar bob amser yn gallu gwneud hynny. Yr ydoedd yn ddigon cryf i beidio a son am ei elynion, yr hyn a brofai ei fod yn gallu maddeu ac anghofio pob math o bethau a phersonau a gyfodent i'w erbyn. Dyma lle y gwelir nerth y Cristion, ac y gellir ei fesur. Yn ei allu i fod yn ddistaw pan gamfernir ef ac y dywedir anwiredd arno. Gwelaf fy Ngwaredwr yn gryf yn y fan yma, pan fedrodd dewi yn y Lllys. Yn sicr, nid oes mewn bywyd hunanymwadol flodeuyn mwy persawr na phrydferthach nag ysbryd maddeugar.

FFYDDLONDEB EIN BRAWD.

Golyga y gair Ffyddlon llawn o ffydd fel Steffan, un cywir, credadwy, un yn cadw ei air, un y gellir ymddired ynddo, un ar ei orau. Y mae ffyddlondeb yn un o reidiau bywyd llwyddiannus ymhob cylch.

Yr oedd Cyndelyn yn ffyddlon yn yr ystyr a roddir i'r gair yn yr Hebraid III., 5, a Dat. XVII., 14. Ni allid ei rwystro i gyflawni ei ddyletswydd ond gan amgylchiadau na allai eu llywodraethu. Bu'n ffyddlon hyd angau, trwy lawer o wendid corfforol. Bu'n ffyddlon i'w deulu, i'w gyflogwyr, ac i'w broffes o'i ffydd yn Iesu Crist fel ei Waredwr. "Ymdrechodd hardd deg ymdrech y ffydd," a gorffenodd ei yrfa mewn llawenydd, Chwefror 10fed, 1908, ac efe yn 71ain mlwydd oed. Claddwyd ef yng Nghladdfa Salem, Fforddlas, y dydd Iau canlynol i'w farw. Daeth torf fawr i'w arwyl o bell ac agos. Boed heddwch i'w gorff i orffwys hyd nes y caiff eto glywed lleferydd Mab Duw, a chodi ar ei ddolw, wedi ei wisgo mewn anfarwoldeb ac yn ddigon cryf i dda! tragwyddol bwys gogoniant ei Waredwr.

Yn Brynhyfryd yr oedd ei drigfa pan yr hunodd. Gwnaeth ddiwrnod da o waith, a rhaid i ni gredu mai mawr ydyw ei wobr yn y Nefoedd. Y nawdd Dwyfol a gyagoda weddill y teulu sydd yn aros, hwythau yn disgyn i'r bedd o un i un.

Diolchwn i Dduw pob Gras am fywyd a gwaith y diweddar Barch. Tomos Efans (Cyndelyn), Fforddlas, Glan Conwy.

ATODIAD I'R COFIANT

Ysgrif gan y Parch. D. B. Harris, Cemaes, Môn, oedd yn Weinidog y Fforddlas ym mlwynyddoedd olaf ein brawd ar y ddaear.

I.

Nid oeddwn i namyn mab dwyflwydd yn y weinidogaeth pan y symudais o Sir Ffint i gymeryd gofal Eglwysi Salem, Fforddlas, a Bryn Seion, Eglwysbach, ym mis Mawrth, 1903. Yr oedd yn perthyn i Eglwys enwog a henafol Salem, Fforddlas yr adeg uchod, ddau weinidog ac un pregethwr cynorthwyol. Nid heb gryn bryder yr atebais yr alwad a roddwyd i mi i'w bugeilio, oblegid yr oedd Eglwys Salem, Fforddlas, wedi cael yr enw ei bod yn magu cewri, ac yn ymhyfrydu mewn bwyd cryf, ac nid ar laeth a dail; ond ceisiais ymgysuro wrth feddwl nad hwyrach y profai y ddau weinidog parchus oedd yno i mi yn rhyw Aaron a Hur i gynnal i fyny fy mreichiau gweinion, byr-brofiad, ac yn wir ni chefais fy siomi; un o'r ddau hynny yw gwrthrych yr ysgrif hon, sef yr hynaws a'r hawddgar "Cyndelyn." Fel y gwyr llawer mai pensaer ac arolygydd cwmni yr L. and N.W. Railway, yn y "Permanent Way Department" ydoedd "Cyndelyn" wrth ei alwedigaeth feunyddiol, a pherchid ef gan y cwmni uchod, a gwerthfawrogid yn fawr ei wasanaeth; ond gwasanaethai eglwys y Bedyddwyr yng Nghonwy fel gweinidog misol. Yr oedd wedi dychwelyd i drigiannu yn nes i'w fro enedigol, ac yn byw yn yr Ashlands, Glan Conwy, pan ddeuthum i i'r Fforddlas, a gwasanaethai eglwys fechan y Rowen yn bythefnosol. Nid oeddwn yn cael llawer o gyfle i'w weled a mwynhau ei gymdeithas oherwydd ei fod yn brysur a rhwym wrth ei alwedigaeth ar y gledrffordd, ond ar ol iddo gvrraedd yr oed i roddi ei waith i fyny, cefais y fantais a'r fraint o gael mwy o'i gymdeithas, ac i ganfod y wythien aur

oedd yn rhedeg drwy ei natur ddynol. Teimlwn bob amser ei fod yn ddyn glân yn ei gwmi. Nid oedd dim maswedd yn cael lie yn ei galon—yr oedd yn lân ei feudwl ei foes a'i wisg. Diau fod "Cyndelyn" heb os nac oni bae yn un o'r dynion gorau a fagwyd erioed yn ardal annwyl y Fforddilas. Fel y nodwyd mai pensaer ydoedd wrth ei alwedigaeth, yr oedd felly hefyd wrth natur—bywyd y pensaer ddeuai i'r golwg ynddo fel dyn a Christian—dyma'r argraff adawodd arnaf:

(a) Yr oedd yn bensaer yn ei gymwynasgarwch. Pan y daethum i'r Fforddilas nid oedd yr un ysgoldy gan yr eglwys i gynnal y gobeithlu a'r cwrdd gweddi a'r seiat, na lle i ddarparu lluniaeth ar achlysuron neilltuol. Yr oedd yn amhosibl cael darn o dir ar werth gan neb i adeiladu ysgoldy, ond yr oedd rhyw gwt bychan yn nhaleon isa'r capel, ond yr oedd yn rhy fychan i wneud defnydd o hono heb gau y ffordd at y fynwent. Daeth Cyndelyn yna a gwnaeth y fath gynllun fel y medrwyd eadw y ffordd at y fynwent a lle hylaw yn y gwaelod i ferwi dwr a chadw'r glo a'r elor, &c., a goruwchystafell hwylus. Y syndod i mi yw ei fod wedi cynllunio ystafell mor ddefnyddiol o le mor anbebyg. Pwy ond pensaer a fedrai wneud yr hyn a wnaeth yn rhad ac am ddim.

(b) Yr oedd hefyd yn bensaer fel llenor a bardd a phregethwr. Ni chyfansoddodd ddarn o lenyddiaeth na barddoniaeth ond wrth gynllun. Wedi tynnu cynllun, adeiladai yn unol a'i gynllun—pob gair a brawddeg yn eu lle, a'i adeiladwaith yn gelfydd a gorffenedig. Ni chefais y fraint o'i wrando yn pregethu ond unwaith yn unig. Pregethai y pryd hwnnw oddiar y geiriau "Yr awrhon y mae yn aros ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn, a'r mwyaf, o'r rhai hyn yw cariad (I Cor., 13. 13) Argraffodd arnaf ei fod yn bensaer yn y pulpud—mor fedrus a deheuig oedd ei gynllun. Yr oedd ei bregeth yn drefnus a chelfydd a choeth, a gorffenedig—pob drws yn yr adeiladwaith yn ei le priodol, a phob ffenestr yn cyfateb i faintioli'r adeilad. Gwnaeth un sylw oedd fel math ar "bay window" i gael golwg eang a phell drem ar y tir pell. Ebai, "Un rheswm fod cariad yn fwy na ffydd na gobaith yw ei fod yn fwy dwyfol; peth dynol yw ffydd a gobaith, ond peth dwyfol yw cariad—Duw

cariad yw. Y mae ffydd a gobaith fel dau blentyn yng nghwmni cariad eu tad. Y mae llawer plentyn naturiol yn dyfod yn gymaint a'u tad, ond ni ddaw ffydd a gobaith byth yn gymaint a'u tad; meidrol yw ffydd a gobaith, ond y mae cariad yn anfeidrol." Cefais fwynhad a bendith wrth ei wrando. Yr oedd llawer mwy o sylwedd nag o swm ganddo. Yr oedd yn pregethu fel yr oeddynt yn adeiladu'r deml gynt, nid oedd swm y morthwyl ganddo yn y pulpud. Nid ar Seinaï y codai ei bulpud, ond ar Hermon. Nid oedd byth yn creu mellt a tharanau ac yn peri lifeiriant nes rhwygo'r galon. Fel gwlyth Hermon oedd efe ar fynyddoedd Seion, canys yno y gorchymynodd yr Arglwydd ei fendith. Tu ol i'w genadwri yr oedd ei gymeriad gwyn a phur yn ei chymeradwyo i'r gwrandawyr. Gallasai ddweud gyda'r Salmydd, "Dy ddeddfau oedd fy nghân." Yr oedd bob amser yn gosod ystyr i bob peth a wnaï. Yr oedd yn aelod dilyn o Orsedd Beirdd Ynys Prydain yn ol defod a braint, a chyfenwodd ei hun yn "Cyndelyn." Gofynais iddo pa beth a'i cymhellodd i ddewis yr enw "Cyndelyn," atebodd, "y mae y bardd yn hensach na'r cerddor, cyn bod telyn yr oedd bardd."

(c) Yr oedd yn bensaer fel dinesydd. Yr oedd gan bawb air da i "Cyndelyn," a chan y gwirionedd ei hun. Yr oedd yn dangnefeddwr mawr, ac felly yn blentyn i Dduw. Ni chlywodd neb air brwnt na miniog o'i enau ef erioed. Gallesid ei alw yn foneddwr o Gristion. Dywedir na fedr y wenylen sydd a llond ei mynwes o fêl bigo. Yr oedd "Cyndelyn" mor llawn c fêl gras a gasglodd oddi ar flodau cariad yr efengyl fel na fedrai bigo neb. Ni adawi i neb ladd ar ei gyd-dyn, heb ei fod yn gwneud fel y canodd Ceiriog:—

"Pan glywodd lefaru llysnafedd a pharddu,
Gan ladd a thrabaeddu;
Rhowch air i mewn o radd i radd,
A chofiwch chwi ganmol y sawl fo' nhw'n ladd."

Felly y byddai Cyndelyn yn gwneud bob amser.

(ch) Mynodd orffen ei yrfa fel pensaer. Ni welais i neb mor hamddenol a boddlon ar wely angau. Yr oedd

fel un wedi gorffen ei waith yn myned i orffwys a huno, wedi cyrraedd ohono ddyddiau'r addewid yn llawn. Dlogodd arfau ei filwriaeth dda. Gosododd ei gleddyf gloyw wrth draed y Pentywysog, a gafaelodd yn ei delyn Chwefror 10, 1908, yn 71 mlwydd oed.

Ac y mae efe, er wedi huno, yn llefaru eto yn y gyfrol fechan hon, ac nid aiff ei lafur yn ofer; fel y dywed Browning yn ei Abt Volger, "All we have wielded or hoped or dreamed shall exist, not its semblance but itself; no beauty, nor good nor power whose voice has gone forth, but each survives the melodist," ac yn y gyfrol hon wele lais Cyndelyn yn myned allan i fodoli a gorfucheddu ei oes.

"Cyndelyn" y cenad hylwydd,—dorwyd
I'r byd arall dedwydd,
Ei enw gwyn, bâr yn ein gwydd
Aroglau fel gardd yr Arglwydd.

Didwyll a hoff gredadyn,—ŵr o bwyll,
Llenor a bardd dillyn;
Un doeth fel Cristion. a dyn
O dalent oedd Cyndelyn.

Gweithiodd gan ddwys bregethu,—“Gwaed y
Gyda grym ei allu; Groes,”
A chariad y Ceidwad eu,
Yn ei osod i ysu.

B. D. HARRIES.

II.

LLYTHYR ODDIWRTH MR. EDWARD E. JONES.

62, North Washington Ave.,
Columbus, Ohio.

Annwyl Gyfeillion,—

Chwith iawn gennyf anfon llythyr heb ddweud Annwyl Frawd. Pan welais yn y "Drych" fod y Parch. Thomas Evans wedi gorffen ei daith yn y fuchedd hon, fe ddaeth mil o bethau i'm meddwl, ac O! yr hir-

aeth ddaeth arnaf, ffrind borau oes, y ffrind cyntaf erioed, ffrind gorau, dim twyll, para felly am dros 58 mlynedd. O mor chwith gennyf feddwl am Tomos Marged Evans yn ei fedd, felly yr oedd ef i'w adnabod, Ned Edward Jones a Tomos Marged Evans, er fod gan Ned fam a Tomos dad, ond fel yna yr oeddym ni yn cael ein hadnabod. Yr oedd Tomos yn well bachgen na fi, mwy diniwed, oedd neb yn fy ngalw yn hogyn drwg ond yn hogyn direidus, ond nid wyf yn meddwl fy mod wedi bod yn faen tramgwydd i'm cyfaill. Y fi oedd y cyntaf hefo crefydd ac yntau yn ail, ac fe'n dilynwyd gan W. Davies a'r wraig, a Sarah y Maesydd, a Lisa Roberts, Bwlchwernhir. Nid wyf yn siwr fy mod yn gywir yn yr hanes, fe allai fod fy mrawd hoff, Parch. W. Davies yn gwybod yn well; yr wyf wedi anghofio rhai, buasai yn dda iawn gennyf gael yr hanes y dydd Sul hwnnw wrth ag yn llyn felin ucha, mi ysgrifennais yr hanes yn fanwl ond fe wnaeth rhyw lygoden fach ei nyth yn yr hanes; nid oedd yr un fach ddim yn gwybod y golled wnaeth i mi. Gwelwn ei fod wedi dechrau pregethu yn 1859, dwy flynedd wedi i mi adael y Graig. Gadawais i yn 1857, Mai 5, yn cychwyn o Lerpwl. Yr oeddwn yn deall iddo bregethu* 1,152 o weithiau, ac O drueni, ni chlywais ef ond un waith yn y flwyddyn 1875, yn y †Bryn-pwllbydr. Aeth ef a minnau un prynhawn Saboth, ac mi gefais y fraint o gario ei gôb ucha, ac fe gefais fraint arall, dechreuais yr odfa iddo, ond nid am gario ei gôb c chwaith, [darn ar goll yn y fan hyn.—E.E.], y milldir-oedd gerddodd, a minnau ddim yn y cyfrif hwnnw pan oedd ef yn y Croesau, a finau yn Ffrithyfoel, degau ag ugeiniau o weithiau i'r Fforddlas. Yn yr adeg hono y bedyddiwyd ef a minau, diwinyddiaeth fyddai y siarad braidd bob amser. Ond un nos-waith, wrth ddod adra o Fforddlas, aeth ef a minau yn dipvn o seryddwyr; y gofyniad oedd pahan yr oedd rhyw ddwy seren mor agos i'w gilydd. Yr oeddym yn sefyll wrth wal gerrig sydd wrth rhyw gae

* Nodiad.—Pregethodd lawer mwy na 1,152 o weithiau. Gol.

†Bryn Seion, Eglwysbach.

hir yn perthyn i'r Croesau, yn rhedeg i lawr gyda chaeau y Maesydd, mae y ddwy seren yno o hyd, yr wyf yn eu gweled yn aml, ac yn cofio am y tro, wedi hynny, yr oedd ef a finau yn y Llan hefo'n gilydd, efe hefo Dr. Williams, a minau hefo [darn eto ar goll.—E.E], ond ni ehymrais erioed y fantais i edrych i lawr arno ef, oblegid yr oeddwn i wedi llwyr gredu ei fod yn well bachgen nag oeddwn i. Wel, gyfeillion hoff, yr wyf wedi bod yn hir iawn yn anfon atoch, wn i ddim a oes maddeuant am bethod fel hyn ai peidio Pan oedd yn dweud fod llawer wedi marw yn y gymdogaeth, buasai'n dda gennyf gael eu henwau. Mae yr hen gartref yn ddiethr iawn i mi. Wn i ddim beth oedd oed Robert, wn i ddim pa un ai byw ai marw yw Mary, fy chwaer, pa faint sydd o deulu fy chwaer Elizabeth yn fyw. Yr wyf yn anfon hyn o lythyr atoch, ni fyddai ein hanes ni yn fawr o gysur i chwí, yr wyf fi a'r wraig yn byw mor gysurus ag y gallwn, nid ydym mor iach ag y dymunem ni fod, ond fe allai fod lawer iawn yn waeth.

Byddwch wych oll.

III.

LLYTHYR Y PARCH. R. T. OWEN.

“ Gloddaeth House,”

10, Chapel Street,
Llandudno,

At Mr. Edwin Evans.

Mawrth 28ain, 1935.

Annwyl Frawd,—

Drwg gennyf nad oeddwn gartref pan alwasoch Parthed cofiant eich annwyl dad teimlaf beth anawater beth i'w ddweud nid oherwydd prinder am gymeriad oedd mor lawn o rinweddau a grasusau yr Eifengyl a'i deyrngarwch llwyr i'w Annwyl Geidwad, ac yn wyneb hyn, y mae dau o bethau perthynol iddo yn dod i'm cof. I'r diweddar frawd William Roberts, Cae Robin, yr ydwyf yn ddyledus am hyn. Dywedai mai gwanaidd oedd Tomos Efans yn nechrau ei oes, ac nad oedd lawer o obaith am hir oes iddo, ac yn bur naturiol parai hyn lawer o bryder i'w rieni annwyl. Modd

bynnag, ni fu raid aros yn hir i weled ei fod yn fachgen darllengar, myfyrgar, a meddylgar. Ond oes anfanateisiol dlawd oedd yr oes honno iddo ef a'i gyffelyb. Llyfrau yn brinion, a'r ysgolion mor brinion a hwythau. Ond i bawb gafodd y fraint o'i adnabod a'i glywed yn darllen a gweddio a phregethu a sylwi ar ei fywyd sanctaidd, hawdd oedd gweled mai y Beibl oedd ei lyfr. Fel y nodais fod ei fynych wendid yn peri pryder mawr i'w rieni,, a rhoddid coel rhyfedd y pryd hwnnw na fyddai ond oes fer i blant henaidd a chall fel ag oedd Tomos Efans yn ei faboed. Yr oedd ffrind i'w fam o'r enw Grace Williams, ac iddi hi y dywedai Margaret Efans ei phrofiad a'i phryder. Cwynai wrthi mai y darllen a'r myfyrio oedd yr achos o fynych wendid y bachgen. Ond siaradodd Grace Williams hi i beidio a dweud gair wrtho fo. "Bydd yn y nefoedd yn fuan iawn i chwi," meddai.

Ond gofalodd ei annwyl Geidwad am ddigon o nerth iddo i'w wasanaethu am 71ain mlynedd.

Oherwydd prinder amser dwedaf un hanesyn eto, yr hwn a ddeil berthynas ag ef ac a brawd nad oedd yn ddigon gwyliadwrus gyda'i bechod parod. Syrthiai yn fynych i'r un pwll, ond fel yr afradlon, gwell oedd ganddo ddod yn ol na marw yng ngwlad y moch a'r cibau. A'r tro yma, wedi dod yn ol, ni fynai i neb ei dderbyn yn ol ond Tomos Efans, er bod amryw i'w cael. Ac erbyn y Sul i'w dderbyn, er ei siom ni dderbyniai Tomos Efans mo honno, ac ni fynai y pechadur ei wrthod. Wedi'r cyfarfod aeth T. E. i'w ddanfôn beth o'r ffordd gartref, ac adroddodd iddo hanes y diweddar Barch. A. J. Parry, D.D. gyda chymeriad tebyg, yr hyn a fu yn ddigon i gael y ddau i gyd-weled, ac ar y cyfle cyntaf wedi hyn derbyniwyd y syrthiedig yn ol, a bu yn aelod a brawd ffyddlon hyd y diwedd. Nis gwn a fydd hyn yn dderbyniol genych. Yr ydwyf mewn brys yn terfynnu gyda'r dymuniadau gorau.

R. T. Owens.

IV.

CYNGOR HEN WEINIDOG I BREGETHWR
IEUANC.

"Fod pregethwr yn debyg i saer coed yn curo hoel i fwrdd caled; digwydd weithiau na fydd ganddo hoel o werth. Pregethwr yw hwnnw yn amddifad o bregeth. Un arall a chanddo hoel, ond heb forthwyl. Pregethwr heb ddawn i draddodi yw hwnnw. Y mae arall gyda hoel a morthwyl, ond heb ebill ganddo i dyllu y bwrdd o flaen yr hoel. Pregethwr heb gymeriad da yw hwnnw. Un arall sydd a chanddo yr holl bethau hyn, eto yn gyrru yr hoel yn afrwydd y mae, am nad oes ganddo olew i drochi yr hoel ynddo. Pregethwr yn fyr o'r eneniad ar ei ysbryd yw hwnnw drachefn. Ond y mae un arall yn fwy anhapus na'r cyfan; un yn meddu hoel a morthwyl da, ond pan y bydd yn amcanu taro yr hoel, bydd yn taro ei fys yn wastad. Yr hyn y mae y pregethwr yn ei gondemnio yn eraill, y mae yn euog o honno ei hunan. Bydded gennyh ffydd a chydwybod da."

(Y mae y dernyn uchod o'm blaen yn llaw-ysgrif Tomos Effans, a gwelaf lawer o'i ddelw arno mewn mwy nag un ffordd. Ni wyddis mai ei waith ef ydyw, ond y mae yn werth i fod i mewn.—Gol.)

V.

ACHOSION NEWYDD.

Gwelodd er ei lawenydd godi llaweroedd o achosion newyddion yn ei ddydd. Cafwyd cawd toreithiog nid yn unig o ddychweledigion, ond o achosion a chapelau newyddion i'r Bedyddwyr ar ol Diwygiad nerthol 1859. Cafodd ef y fraint o bregethu yn y lleoedd canlynol a godwyd yn ei oes bregethwrol ef: Abergele, 1862, Bod-synweh, 1862 (nid 1852 fel y mae yn y Dyddiadur 1935), Caergybi, Hebron, 1862; Colwyn, 1862; Bau Colwyn, 1868; Eglwysbach, 1878; Ffestiniog, Seion, 1860; Cal-faria, 1871; Moria, 1890; Ffynnongroyw, 1892; Glan-adda, Bangor, 1892; Groeslon, 1871; Cyffordd. Llan-dudno, 1900; Llanfairtalhaearn, 1862; Llanfairfechan,

1878; Llysfalen, 1884; Porthaethwy, 1884; Penmaenmawr 1892; Ochr y Penrhyn, 1895; Bethania, Rhos, 1905; Rhosneigr, 1895; Valley, 1868. Nid y ddwy ar hugain hyn yn unig a godwyd i'r Bedyddwyr yn ei amser ef. Nid ydys yn sicr iawn am ddyddiad corffoliad yr Eglwys hyn, gan y rhoddir yn y Dyddiadur yn y golofn "Corffolwyd," weithiau adeg adeiladu y capel, ac nid adeg y corffoli, megis yn hanes Ffynnongroyw. Corffolwyd yr eglwys yno Gorffennaf 10fed, 1890. Dylid rhoddi y Dyddiadur a phethau fel hyn yn y ffwrnes, a llosgi pob celwydd sydd ynddo.

VI.

LLONDER EI YSBRYD YN LLWYDDIANT YR EFENGYL.

Nid oedd dim a lcnai ei ysbryd yn fwy na gweled gwaith yr Arglwydd yn llwyddo, a'r saint yn codi allorau iddo yng Nghymru annwyl. Ceir nodiad yn ei Ddyddlyfr sydd yn dangos llonder ei fywyd wrth weled achos yr Arglwydd yn llwyddo ym mhob man, ac yn arbennig felly yn Salem, Fforddlas. Dywed hanes y Sul, Chwefror 12fed, 1905, pan fedyddiwyd yno 23 gan y Parch B. D. Harris, y Gweinidog. Dywed fod yr Eglwys yn Fforddlas wedi cyrraedd cant a chwech mewn rhif, a rhydd enwau y rhai a fedyddiwyd ac a adferwyd. Wrth ddarllen y cyfryw teimlwn fod swm ei orfoledd yn yr awyr o'm cwmpas am y gwyddwn mai felly yr ydoedd.

Yn yr un Dyddlyfr ceir ganddo gyfrif dychweledigion yn y Diwygiad ddiwedd y flwyddyn 1904 a dechrau 1905, wedi ei godi o'r "Pioneer," Chwefror 9fed, 1906, yr hwn a ddengys i'r enwadau gael ychwanegiadau fel y canlyn: Bedyddwyr, 24,133; Annibynwyr, 13,490; Methodistiaid Calфинаidd, 8,133, a'r Methodistiaid Wesleyaidd, 7,481.

VII.

Syniad uchel y diweddar Mr. Tom Davies, o'r Cefn Mawr, Arweinydd y Gân yn y Tabernacl am lawer o flynyddoedd, am y diweddar Barch Tomos Efans fel pregethwr:

Yr oedd y diweddar Mr. Tom Davies wedi bod yn-wael ei iechyd, ac wedi gwella yn ddigon da i fyned i Gartref (Convalescent Home), Rhyl. Mr. Davies oedd tad yr enwogion Emlyn Davies, Ysw., y cerddor enwog; Gethin Davies, Ysw., y gŵr defnyddiol ac adnabyddus; a'r diweddar Barch. Arthur Davies, Porthcawl, sydd a'i enw yn perarogli.

Bu Mr. Tom Davies yn y Rhyl am rai wythnosau, ac yn ol ei arfer gartref yn y Cefn, elai i'r Tabernacl bob Sul yn ffyddlon yn y Rhyl. Ac yn ol a ddeallaf yr oedd doniau gwahanol yno bob Sul, ac ar un o'r Suliau hynny yr oedd y diweddar Barch. Tomos Efans (Cyndelyn) yno yn pregethu. Cafodd Mr. Tom Davies y fath fwynhad yuddo fel pregethwr. Gosododd ef yn uchel iawn ar lectres y Pregethwyr Mawr; ni finai son am dano, ac o fewn rhai wythnosau wedi iddo fyned gartref yn ol i'r Cefn Mawr, yr oedd Eglwys y Tabernacl yn dewis pregethwyr i'w chwrrd blynyddol. Gwnaeth Mr. Davies araith a gariodd bawb gydag ef, a chynigiodd y Parch. Tomos Efans, Fforddlas, a phasiwyd gydag unfrydedd i'w gael. Antonwyd ato a disgwyliwyd yn aiddgar am ei ateb, yr hwn a ddaeth yn diolch yn gynhesol iddynt am eu gwahoddiad anrhydeddus, ond nas gallai feddwl am ddod yn ol eu cais, ei fod yn pregethu yn yr Eglwysi o gylch ei gartref, ond na allai feddwl am fyned i "Gwrrd Mawr" ar unrhyw gyfrif.

Dyna Tomos Efans, Fforddlas, yn union fel ef ei hun. Cefais yr hanesyn uchod gan T. G. Jones, Ysw., Coedllai, diweddar Brifathro Ysgol y Cyngor yng Nghoedllai, a mab i'r diweddar Barch. G. R. Jones, cyn-weinidog y Fforddlas, oedd yn weinidog y Tabernacl, Cefn Mawr, ar y pryd.

Dyweddodd Mr. Jones iddo ysgrifennu yr hanesyn i "Seren Cymru," ond nad oedd yn cofio pa flwyddyn, ac nid oes amser i chwilio am y cyfryw. Gobeithiaf na wneuthum gam ag ef. Diolchaf i'm cyfaill hoff am ei ddweud wrthyf pan oeddwn yn cardota am ddefnyddiau yng Nghymanfa Rhuthyn.—Gwyddno.

VIII.

Llinellau er cof am y diweddar Barch. Tomos
Efans (Cyndelyn), Fforddlas, gan y diweddar Barch.
Benjamin Davies, Rhuthyn.

Hiraeth mawr ar glawr y glyn
A'n daliodd am Cyndelyn;
Y dyn da, diniwaid oedd
A didwyll ŵr Duw ydoedd;
Awen fwyn ar lan ei fedd
Gorona'i hawddgar rinwedd.

Yr haeddol ŵr o'r Fforddlas,—a erys
Dan glodforedd addas;
Ni waherddir i'w urddas
A'i uniawn gred. wanwyn gras.

Dawel frawd, ei lafur ydoedd—onest
Fel cenad y Nefoedd;
Rhaid wylaw, medd ardaloedd
Ein gwir was Nef-deyrngar oedd.

Ni ddaliai ef swyddol waith,—ar y "Line"
Drwy haelionus weniaith;
Geiriau Duw, drwy gur ei daith
Ni ddifwynodd ef unwaith.
Cadarnhau a'i foesau fu
Ddewisol grefydd Iesu.

Yr aelwyd deg ar ol dydd,—gysegrwyd,
A'i hedd fwriadwyd er budd efrydydd.
Yr Hen Lyfr anwylai O
Yn ei sel ro'l noswyllo
I droi enaid yr annuw
Ei gariad oedd geiriau Duw,
Ei oriau'n llwyr wariai'n llon
At leshau teulu Seion.

Ei fendigedig Geidwad.—a gododd,
A'i gadarn gymeriad;
Yn ddi-len ei ddylanwad
Sy' ar lwydd Eglwysi'r wlad.

Adwaenir ei rawd union
A'i wir ffyrdd drwy'r argraff hon—
Yma yn huno ceir mwyn awenydd,
Cywir ei ofal, dros achos crefydd;
Gwylaidd ei enaid, gloew ddiweinydd,
Yn dilyn rhodiad ei lân Waredydd;
Yn ei foes i'r ddalen fydd,—a'i waith da,
Yn swyn na wywa, a'i oes yn newydd.

RHAGAIR I'W WEITHIAU.

Diau y bydd llaweroedd yn falch iawn o weled Gweithiau Cyndelyn mewn argraff; ceir ynddynt bethiau o ddiddordeb i gylch eang; personau ac ardaloedd Glannau Conwy, etc. Wel, siroedd Dinbych, Môn ac Arfon, yn arbennig; a pheth o bwys i haneswyr y cykhoedd.

Gwelir mai canu wrth ei bleser yr ydoedd, ac nid am wobrwyon; gwelir, hefyd, beth allasai ei wneyd pe wedi rhoddi ei fryd ar bethau mwy. Nid oes yma ddim gwael, efallai y gellir galw rhai pethau yn gyffredin, yng ngoleuni y beirdd newydd; ond rhaid cofio mai **doe** y canwyd hwy. Ceidw ei draed bob amser ar dir cys-egredig. Y mae a fynno yr oll a'r pethau gorau.

Ceir yn y gwaith ddeunydd mwynhâd i laweroedd. Er fod Cyndelyn ei hun wedi arllwys eu cynnwys ar ben cynullïadau mawrion, eto dyma i fechgyn Glannau Conwy gymaint o ddeunydd difyrwch ac a gânt yn un man heb anghofio Llyfr gwerthfawr I. D. Ffraid.

Boed heddi i bawb a garant Lân a Barddas eu gwlad.

Yr eiddoch yn Llengar,

Gwyddno.

Gorffennaf, 1935.

Nodiad.—Y mae y gweithiau yn hollol fel y gadawodd yr awdur hwy.—Gol.

GWEITHIAU BARDDONOL

CAETH A RHYDD

Y DIWEDDAR BARCH.

**TOMOS EFANS (CYNDELYN),
FFORDDLAS, GLAN CONWY.**

BYR GOFIANT CYNDELYN
GWEITHIAU PRYDYDDOL.

GWEDDI.

Llais o ing yn llys angel—mewn hyder
 Mŷn hedeg o'r dirgei;
 I borth Iôr mewn aberth êl,
 A'i ddichon drwyddi ddychwel.

ARALL AR YR UN TESTYN.

Gweddi i'r byd tragwyddol—esgyna'n
 Ddwys gwynion moesol;
 A'i raid i'r enaid yn ol,
 Duw yr i'r byd daearol.

I'R BUGAIL.

(Buddugol yn Eisteddfod Conwy, Beirniad (Y Myfyr).
 Bugail gyda'i gail a'i gi—a'i ffon hoff
 A wna fawr wrhydri;
 Ei braidd a geidw mewn bri,
 Uwchlaw adwyth a ch'ledi.

Y CWRAGEDD WRTH Y GROES.

(Buddugol yn Glanwydden. Beirniad: "Spinther.")

Yno yn dystion distaw—hwy wylent
 O weled eu Hathraw,
 A'r lleng anwariaid gerllaw,
 Benodwyd i'w boenydiaw.

Gwel'd hoelio, taro y tirion—a'i ladd
 Gan lu o elynion;
 Ow! ffei, gweld rhoir waewffon,
 O'r golwg trwy ei galon.

DYMUNIAD AM GREFYDD.

Crefydd bur ddihalogedig,
 Dyro imi, Arglwydd mawr;
 Crefydd ddeil yn wyneb popeth
 Sydd am gael fy mhen i lawr,
 Hon rydd imi
 Fodd i ganu am Dy râs.

Y WAWR COCH AR FACHLUD HAUL.

Lliwiog wawr y gorllewin—hon ddywed
 Hîn dda medd Haul iesin,
 Ar ol ei râd araul rîn,
 Hoff wrida'n anghyffredin.

Y LLYGODEN.

(Buddugol yn Eisteddfod Conwy. Beirniad, " Gwilym
 Cowlyd).

Dygn ac ôd ei hegni—yw Llygoden
 Llygadog a gwisgi;
 Lladronllyd, hefyd, yw hi,
 Dewr odiaeth mewn direidi.

CETAWCO.

(Buddugol yn Eisteddfod Conwy. Beirniad: " Gwilym
 Cowlyd ").

Anhydrin frenin ei fro—dywedant
 Ydoedd (Cetawco);
 Am hyn, mewn ing mŷn Jingo
 Shôn Bull roes y dŵl dan dô.

Y DIOG A'R MORGRUGYN.

Y diog ar bob rhyw dywydd—a geir
 Yn segura'n benrhydd;
 Sail ei fod, O! sâl a fydd,
 Neu rhyw boen dirfawr beunydd.

Dewr, diwyd ar hyd yr ha'—yw agwedd
 Morgrugyn—ac yna
 Yn ei nyth, ymloni wna
 O gyrhaedd rhew ac eira.

Ddiogyn, dod nawddogaeth—i agwedd
 Morgrugyn wasanaeth.
 Yna, oerni cynni caeth
 Arbedi trwy ddarbodaeth.

Y CYBUDD.

Llwm ei wisg a llym ei ên -- cwyno byth
 Ac yn byw'n ei elfen;
 Llunia ing, mae'n llawn angen,
 A'i bwrs yn gymaint a'i ben.

Y CRISTION AR EI DAITH.

Teithio 'rwyf rhwng 'stormydd geirwon
 Tua'r porthladd prydferth fry,
 Mae fy enaid yn hiraethu
 Am gael gwel'd fy Mhrynwr cu,
 'Rwy'n hyderu
 Caf ei gwmni yn y man.

Tòn ar dòn sy'n myned droswyf
 Bron a suddo lawer gwaith
 Tywyll, niwlog, yw o'm deutu,
 O na bawn ar ben fy nhaith
 Yn ddihangol,
 Uwch y byd mewn gwlad sydd well.

Creigiau mawrion anghrediniaeth
 Ymddangosant oddi draw
 Yn fy erbyn fel mynyddau,
 Gwnânt i'm lawer tro gael braw,
 Yna byddaf
 Gan fy ofn bron troi yn ol.

Pan bwy' felly mewn tywyllwch,
 Methu canfod ail i ddim,
 Haulwen ffydd a ddaw i'r amlwg,
 A goleuni gwerthfawr im,
 Yna byddaf
 Yn ail gychwyn yn fy mlaen.

Pan edrychwyf i Galfaria,
 Gweled Iesu mawr ei hun
 Yno'n dioddef loesion angau
 Pan yn gorffen prynu dyn,
 Bydd fy enaid
 Yn cael achos llawenhau.

BYR GOFIANT CYNDELYN

Myrdd o rwystrau elaf drwyddynt,
 Mi gaf nerth yn ol y dydd,
 Beth yw'r oll o'r 'stormydd erchyll,
 Nid ynt ddim yn wyneb ffydd,
 Ymwrolaf,
 Af yn hy trwy nerth fy Nuw.

Wrth wrandaw ar y Parch. John Roberts, Pontllyfni,^{yn}
 darlithio ar y diweddar Barch. Robert Jones, Llanillyfni,^{yn}
 Glan Adda, Bangor.

Hynod Roberts ddywed inni—hanes
 Yr enwog Lanillyfni;
 Gwron ym mysg hen gewri,
 Pert iawn oedd ein Robert ni.

Enwog a fydd ei hanes—am oesau,
 Mae eisoes yn gynnes,
 A'i gofrodd sydd yn gyfres,
 A'i hynod ddawn yn llawn lles.

Boddus ei drem ar Babyddiaeth—yn hir
 Erys mewn hanesiaeth;
 Noddir ei Emynyddiaeth,
 A'i Emau syw sy'n fyw faeth.

Gweddus ac enwog weddiwr—ydoedd,
 Hynodol bregethwr;
 Hoff hynod amddiffynwr
 A fu i deulu y dŵr.

Y WAWR.

Cysgod haul, cu wasgod wen—ydyw'r wawr
 Ar fron dwyrain wybren;
 Draw yn wiw hyd awyr nen
 Hon hwyliu o flaen heulwen.

ARALL.

Cenhades liwdeg gŵn hudol—yw'r wawr
 Ar ael nen ddwyreiniol,
 Arianaidd a chyfriniol
 O wedd hardd, a dydd o'i hol.

ARALL.

Hudolus yw y dlws awyr—yn dyweud
 Fod dydd yn ei wewyr,
 Hoff addas nos ddiffoddyr,
 Yw'r wawr deg o'i goror dyr.

Ar ol y diweddar R. W. George, Menai Bridge.

Y duwiol hwn dawel hunodd—wele
 William adref groesodd,
 Aeth i fyd sydd wrth ei fodd—nefol wlad
 Hoff oedd o'i Geidwad a'i ffydd a gadwodd.

**Ar ol "Sushanah," merch Robert a Jane Williams,
'Rynys Fawr, Glan Conwy.**

Hir nychodd o ran ei hiechyd—bu fyw
 Heb fawr hoender bywyd;
 O'i bodd yn ieuanc o'r byd—hi a aeth
 I fro uwch alaeth yn ddifrycheulyd.

Ar ol "Sarah," merch Enoch a Sarah Roberts, Factory.

Lodes rinweddol ydoedd—a hynod
 Annwyl gan laweroedd;
 Eisiau hon ar Iesu oedd
 I baradwys ysbrydoedd.

**A gyfansoddwyd wrth ganfod y diweddar Cynddelw yn
 dod o gyfeiriad Pontripont i orsaf y Valley, a'i farf fawr
 yn cyhwfan yn y gwynt.**

Barf hirach na barf Aaron—yn disgyn
 Hyd wasgod y gwron;
 Ni fedd neb farf yn Arfon
 O liw hardd un ail i hon.

ER SERCHOG GOF am Flora Jane, annwyl ac unig blentyn
 Richard a Marg. Williams, Smithy, Ty'n y Groes, yr hon a ymadaw-
 odd a'r fuchedd bresennol Mawrth 2, 1894, yn 9 mis oed, ac a
 gladdwyd yn Mynwent Caer Rhun, Mawrth y 5ed.

Mynych gwelwyd yn y Gwanwyn
 Foreu tawel hyfryd iawn,
 Anian drwyddi yn ymloni
 Dan belydrau heulwen lawn.
 Mân eginau trwy y dyffryn,
 Blodau blydd yn ber eu sawr,
 Cor y goedwig yn cydbyncio
 Molawd idd eu Crewr mawr.

Ond yn fuan gwelwyd arwydd
 Y fod storm yn casglu draw,
 Wele gwmwl du yn hofran,
 Yna melten yn rhoi braw,
 Taran erchyll a llifddyfroedd,
 Ac arswydol ddeifiol wynt,
 Erbyn dranoeth, O'r olygfa,
 Pob prydfferthwch wedi mynd.

Ail i hyn fu gyda chwithau,
 O'ch priodas yn y Llan,
 Cartref dedwydd, ffawd yn gwenu,
 A phob un yn gwneud ei ran,
 Er coroni eich disgwyliad,
 A'ch llawenydd yr un modd,
 Ganwyd ichwi febyn annwyl,
 A mawr eich diolch am y rhodd.

Yr oedd hoffter yn ei llygaid,
 Ac anwylddeb yn ei gwen,
 Penderfynwyd ar ei henw,
 Galwyd hi yn Flora Jane,
 Hawdd yw genym gwbl gredu
 Ei bod wedi dwyn eich bryd,
 A'ch gobeithion am ddiddanwch
 Ar eich aelwyd ddedwydd glyd.

Pan yr oeddych felly'n llawen,
 Pawb yn canmol Flora bach,
 Ac yn dotio at ei phertrwydd,
 A'i gwynebpryd siriol iach;
 Wele'n sydyn arwydd eglur
 Y fod cwmwl yn crynhoi,
 Yn awyrgylch eich hapusrwydd,
 Ac nas gallech ei ysgoi.

Gyda hyn mae'r storm yn rhuthro,
 Gan andwyo eich mwynhad,
 Cludodd ymaith o'ch mynwesau
 Er eich gwaethaf Flora fâd.
 Rhoddwyd archoll yn eich teimlad
 Fydd yn anhawdd ei wellhau,
 Mynych gofion byw am dani,
 Bar i hwnnw hir barhau.

Ond rieni na alerwch
 Am eich annwyl Flora Jane,
 Eisiau hi oedd ar yr Iesu,
 I fwynhau ei ddwyfol wên,
 Ac i chwareu ei haur delyn
 Ar y testyn mwyaf gaed,
 Iddo Ef, yr hwn a'i carodd,
 Ac a'i golchodd yn ei waed.

Pe gofynach iddi heddyw
 Ddod yn ol i wella'ch ciwyf,
 Hi ddywedai—diolch i chwi
 Gwell i mi y fan lle'r wyf.
 Annwyl riaint, ymdawelwch,
 Ymfoddlonwch dan y drefn,
 Os parhewch i ddilyn Iesu
 Cewch wel'd Flora bach drachefn.

Mal pér rosyn gwyn yn gwenu—y bu
 Flora bach anwyngu;
 O gôl y fam galw fu
 Y Rhosyn at yr Iesu.

**I J. T. Marks, Ysw., C.E., Llanudno, ar ei waith yn cadeirio
mewn darlith yn Fforddlas.**

Celfydd beirianydd enwog—yw ein Marks
Boneddwr mwyn, serchog;
A llywydd gwir alluog—mewn eisiau
Yn llenwi seddau yn llawen swyddog.

**Llinellau Coffadwriaeth am y diweddar John Davies, Ffynnon
Roger, Codau, Abergale.**

Nid yw ffermdy Ffynnon Roger
I mi heddiw megis cynt,
Er fod yno deulu hoffus,
Mae'r anwylaf wedi mynd;
Wedi mynd, medd dagrau priod,
Wedi mynd, medd dagrau plant,
Wedi mynd, medd Eglwys Codau—
Ydyw, ydyw, annwyl sant.

Aeth pan ydoedd haul ei fywyd
Yn awyrgylch canol dydd,
Cyn blodeuo o'r pren almon,
Na rhych henaint ar ei rudd;
Aeth o anfodd ei gyfeillion,
Aeth yn dawel a digryn:
Wedi brwydro â thralodion
Aeth o'u gafael trwy y glyn.

Priod hawddgar, tad gofalus,
Tyner, tawel, oedd ei fryd,
A chymydog cymwynasgar,
Parod gyda'i help bob pryd;
Ond prif nod ei fywyd ydoedd
Bywyd ei Waredwr cu,
A dilynydd ffyddlon iddo
Hyd ei fedd efe a fu.

Blaenor ydocodd, nid mewn enw,
Ond mewn cymwysterau llawn,
Blaenor hefyd i flaenoriaid
Yn ei gyngor, yn ei ddawn;
Pan gynheuai tân anghydfod,
Heb fawr reswm o'r pahan,
Trwy ei bwyll a'i feddwl treiddgar
Medrai ef ddiffoddi'r fflam.

Bu'n arweinydd cyrddau Seion
Hyd nes pallodd o ran nerth—
Cydnabyddid ei alluoedd,
A'i wasanaeth o fawr werth;
Adnabyddai ddoniau'r brodyr,
Eu gwaith roddai i bob un,
Felly ceid y cyfarfodydd
Oll yn drefnus a chytûn.

Cerddor celfydd, ac arweinydd
 Canu Seion ydoedd ef,
 Medrai ennyn ysbryd canu
 Gyda'i dyner, swynol lef;
 Ysbryd moli a bendithio
 Enw Duw am drefn Ei ras,
 "Diolch Iddo," "Diolch Iddo,"
 A ddatgenid gyda blas.

Colled dirfawr oedd ei gollu,
 Ergyd drom i'w briod cu,
 Cwmwl dudew dros ddyfodol
 Ei anwyliaid hefyd fu;
 Colled bwysig oedd i'r Eglwys,
 Tristwch glywir yn eu llef—
 Gyda dwyster soniant beunydd
 Am ei ymadawiad ef.

Chwi sydd heddyw yn galaru
 Am fod Davies yn ei fedd,
 Cymedrolwch eich pur ddagrau,
 Na thristewch fel rhai di-hedd;
 Y mae gennyich sicrwydd gobaith
 Am ei gadwedigaeth ef—
 Mynnwch chwithau sicrwydd hefyd
 Cewch ei gwmmi yn y nef.

Y DDAU-WYNEBOG.

Yn eich wyneb y ddau-wynebog—geir
 Mewn gwên yn gymylog;
 Hyf elyn yw'r diafl euog
 Yn dwyn ei gledd o dan glôg.

Dawn seraph, ond un sarphaidd—a'i aberth
 I ddiben anweddaidd;
 Oen o flew, ond hen flaid
 Hyll, a choryn llechwraidd,

Atgofion am fy hen gartref, lle y'm ganwyd a'm magwyd. Hen dy tô gwellt ydoedd, a dim ond cegin a siamber, ym mhen pellaf y Graig, ar y llaw dde wrth fynd o'r Llan i gyfeiriad Talycafn. Yr oedd gardd yn ei amgylchynnu. Y mae yn awr bedwar o dai newyddion ar y fan y safai. Yr oedd yr hen dy yn cael ei alw'n "Ty'n y Pant" ar lyfrau'r dreth.

Pa le, O! pa le mae y bwthyn
 A elwid yn "Dy yn y Pant,"
 Oedd hynod henafol ei arddull,
 A'i oedran yn ddau neu dri chant?
 Ei furiau oedd lydain a chedyrn,
 Heriasant ystormydd a meltt,
 Ac arnynt dylathau o dderw
 Er cynnal ei drwchus dô gwellt.

BYR GOFIANT CYNDELYN

O amgylch ei fychain ffenestri
 Y tyfai pren rhosyn gwyn tlws,
 Ac arogl ei beraidd rosynnau
 A ddeuai i mewn trwy y drws;
 O dan ei fargodjon y nythai
 Yr hynod aderyn y to,
 A hithau'r fwyalchen ymbranciai
 Ar frigyn gerllaw yn ei thro.

O'i amgylch 'roedd gardd a pherlyisiau,
 Lle'n fynych llafuriai ein tad,
 A ninnau fel plant yn ei helpu—
 Cael dysgu oedd dâl a boddhad;
 Ac weithiau caem ddyrnaid o eirin,
 Ac afal neu ddau, am ein gwaith,
 Ond os y caem gyfle, fe elai
 Yr afal neu ddau yn gryn saith!

O fewn ei glyd aelwyd henafol
 Ymgasglen fel teulu ynghyd,
 Ein tad gyda'i lyfr neu ei erfyn,
 A'n mam gyda'i hosan 'run pryd;
 A ninnau yn dysgu ein tasgau
 Er myned i'r ysgol drachefn,
 A'n tad â'i edrychiad yn cadw
 Llywodraeth, a heddwch, a threfn.

Byw adgof a rêd trwy ein mynwes
 Am arddull y siamber fach glyd—
 Un gwely-ystafell ragorach,
 Ni gredem, nid oedd yn y byd;
 I'r gwely yn gynnar yr elem
 Ar ôl dweud ein gweddi bob un,
 Ac yno ceid stori ddiniwed
 Cyn gorffwys yn dawel mewn hun.

Cael myned i wely'n rhieni
 Ar ôl iddynt godi oedd fraint,
 Ac yno yn ddistaw y byddem,
 Yn edrych mor dduwiol â saint;
 O fewn i'r hen siamber ddi-addurn,
 Yng nghanol y gwely bach clyd,
 Breuddwydiem am gyfoeth a phleser
 Cyn gwybod am drallod y byd.

Ond heddyw nid diben ymholi
 A gofyn pa le mae'r hen dy—
 Llaw tynged ddaeth heibio a'i chwalu,
 Ac heddyw nid oes ond lle bu;
 Pa le mae ein hannwyl rieni
 Fu yno'n ein magu mewn hedd?
 'Rôl brwydro â llu o drallodion,
 Maent heddyw yn huno'n y bedd.

Pa le mae y teulu a fagwyd
 Ar aelwyd Hen "Dy yn y Pant"?
 Trwy ddyrys, ddoeth droeon rhagluniaeth,
 Ar chwalfa 'rym ninnau, y plant;
 'Run dynged â'n hannwyl hen gartref,
 I ninnau rhyw ddiwrnod a ddaw—
 Am hynny ymdrechwn feddiannu
 Y nefol dy nid o waith llaw.

**Englyn byrfyfyr a wnawd i hen gymeriad hynod o Caergybi
 a adnabyddid wrth yr enw Will Hughes.**

Will dda gwr, Will ddiguro—yw Will Hughes,
 A Will hael lle byddo;
 Naws milan, llawn o smalio,
 A llais 'run ffunud â llo.

**ER COF am D. Williams, Coŋau, Betws, Abergele, yr hwn
 a hunodd yn yr Iesu Ebrill 17eg, 1897, ac a gladdwyd ym mynwent
 y Bedyddwyr yn Llanellian y dydd Mercher dilynol.**

O! ein brawd a'n cyfaill hoffus,
 Paham y gadewaist ni?
 A raid inni ymfodloni
 Heb dy gwmni gwerthfawr di?
 O! mae'n anhawdd gennym gredu
 Fod dy gorff yn awr mewn bedd,
 Ac na chawn dy weled eto
 Yr ochr hon i wlad yr hedd.

Trwy y cyfnewidiad rhyfedd
 Aethost cyn in' gredu'r faith,
 Meddyliasom gael dy gwmni
 Unwaith rhagor ar y daith;
 Ond ti aethost i gwmniaeth
 Llauer gwell na'n cwmni ni—
 Cwmni'th Arglwydd bendigedig,
 Oedd mor annwyl gennyt ti.

O! na allet yrru llinell
 O dy hanes yn y glyn,
 Modd yr aethost drwy'r Iorddonen
 Adref draw i Seion fryn;
 A ddaeth rhywun i'th gyfarfod
 I'th roesawu'r ochr draw?
 Ddaeth yr Archoffeiriad ffyddlon
 I roi iti help ei law?

Do, ni gredwn—ni chawn wybod
 Yma'n myd yr anjal maith,
 Nid oes gyfrwng i'n hysbysu,
 Anhraethadwy ydyw'r iaith;
 Disgwyl raid i ni'n bresennol
 'R ochr hon i'r afon ddofn,
 Hyd y dydd y cawn ni ddyfod
 Drwyddi atat yn ddiiofn.

BYR GOFIANT CYNDELYN

O! fy mrawd, mae hiraeth arnaf,
 Hiraeth fydd am amser maith,
 Am yr annwyl gyfeillachau
 Gawsom yma lawer gwaith;
 Melys gennyf fydd adgofio
 Am groesffyrdd a'r ffordd i'r Llan,*
 A gwastadedd y Brynhyfryd,
 A phen yr allt, O! ddedwydd fan,

Lle y buom yn ymddiddan
 Am y Groes a'r byd a ddaw,
 Wedyn 'madael mewn tangnefedd
 Trwy sylweddol ysgwyd llaw;
 Nid rhyw ffug o gyfeilgarwch
 A oedd rhyngom ni ein dau,
 Meddwl am y golled gefais
 Bâr i'm henaid wir dristáu.

Colled ddirfawr oedd ei golli,
 Gwag hyd heddyw yw ei le,
 Gwag yw'r ty, a'r ardal hefyd—
 Gwir gymydog oedd efe;
 Teimlai'n ddwys pan welai angen,
 Ei law agorai yn y fan,
 A chyfrannai'n ewyllysgar
 Ran o'i dda i helpu gwan.

Gweithiwr diwyd a darbodus
 Gyda'i orchwyl oedd efe,
 Ei ddyledswydd a gyflawnodd
 At y byd a theyrnas ne';
 Colled bwysig oedd ei golli
 Idd ei briod hawddgar fron,
 Ac i'w annwyl eneth hefyd,
 Hithau deimla'r golled hon.

Colled hefyd fu i'r Eglwys,
 Un o'i phrif golofnau oedd—
 Cristion didwyll, egwyddorol,
 Yn y dirgel ac ar g'oeidd;
 Ail i Simon mewn brwdfrydedd
 Ydoedd dros ei Arglwydd mawr,
 Cafodd ddeugain o flynyddau
 I'w wasnaethu ar y llawr.

Yn yr eglwys blaenor ydoedd,
 Llanwai'r swydd yn deilwng iawn—
 Meddai allu, meddai brofiad,
 A gwybodaeth Feiblaidd lawn;
 Trefnydd ydoedd, doeth, gofalus,
 Gwyddai'r modd i gario'r gwaith,
 Ac i'r ieuanc bu yn athraw
 Yn ei foes ac yn ei iaith.

* O'r Codau i Langernyw.

Bu ei lety yn Bethania
 I holl weision Iesu Grist,
 Cartref oddi cartref ydoedd
 I nerthu'r gwan a llonni'r trist;
 Yr oedd ef a'i briod hoffus
 Am y gorau'n gwneud eu rhan—
 Cwithhdod meddwl na chawn mwyach
 Ond adgofio'r ddedwydd fan.

Nawdd y nef fo idd ei weddw,
 Ac i'w ferch a'i phriod cu,
 Cymorth iddynt ymdawelu
 Nes êl heibio'r cwmwl du;
 Fe ddaw eto heulwen olau,
 Mae ein Harglwydd wrth y llyw,
 Ac mae popeth er daioni
 I'r rhai sydd yn caru Duw.

Y BLUEN AR YR AFON.

Mewn trobwill ar afonig dlos
 Chwim nofiai pluen fechan,
 Yr oedd fel pe buasai'n fyw,
 Yn chwarae wrthi'i hunan;
 Yn llawn o nwyi, pysgodyn ddaeth
 A llamai ati'n sydyn—
 Gau dybio mai pryfedyn oedd,
 Bwytaodd yr amheuthyn.

Ond och! y siomiant ddaeth i'w ran,
 Nid pryfyn oedd, ond abwyd—
 Ynghudd o dan y bluen dlos
 Angeuol fach osodwyd;
 Ar dorlan draw, pysgotwr oedd
 Yn gwylid ei symudiad,
 A chyda'i enwair, dal a wnaeth
 Y brithyll mewn amrantiad.

Fel pluen ar yr afon yw
 Holl hudoliaethau'r diafol—
 I'r llygaid tra deniadol ynt,
 Yn llawn o bob peth swynol;
 Fel hen bysgotwr cyfrwys, call,
 Gerllaw bydd ef ei hunan,
 Ac O! mor fawr ei grechwen fydd
 Pan lwydda yn ei amcan.

Ieuencid hoff, gochelwch rhag
 Cofleidio pob amheuthyn,
 Os swynol ynt, ystyriwch hyn—
 "Nid aur yw popeth melyn";
 Tu ôl i'r llen yn fyny ch bydd
 Golygfa a bâr ddychryn,
 Ac mae cwpanau hardd eu lliw
 Yn dal eu llond o wenwyn.

DYMUNIAD.

O Arglwydd Dduw, dod imi nerth
I ddringo hyd y rhiwiau serth,
Ac yna deuaf yn y man
I etifeddu'm nefol ran.

CWAHODDIAD I'R YSGOL SABOTHOL.

I'r Ysgol Sabothol, ieuenetid hoff, dewch,
Y mae yn eich gwahodd, a chroesaw a gewch,
A chwithau henafgwyr, rhoi iddi help llaw—
Trwy feddu eich cymorth daioni a ddaw;
Pob gradd a sefyllfa, pob oedran, pob rhyw,
Dewch iddi o'ch gwirfodd i ddysgu Gair Duw.

Athrofa fendigaid sy'n dysgu yn rhad
Yw'r Ysgol Sabothol—mae'n fendith i'r wlad,
Ei haddysg sy'n werthfawr lle bynnag yr ewch,
Cysuron ysbrydol o'i feddu a gewch;
Pob gradd a sefyllfa, pob oedran, pob rhyw,
Dewch iddi o'ch gwirfodd i ddysgu Gair Duw.

Mae llawer fu ynndi yn dysgu'r A B
Yr awrhon yn meddu safleoedd o fri,
A pharod gyffesant mai hi biau'r clod
O greu ynndynt awydd i gyrraedd eu nod;
Pob gradd a sefyllfa, pob oedran, pob rhyw,
Dewch iddi o'ch gwirfodd i ddysgu Gair Duw.

Os ydych am feddu gwir fwyniant a hedd,
A meddu y nefoedd rôl angau a'r bedd,
I'r Ysgol Sabothol, yn ffyddlon oll, dewch,
Derbyniwch ei haddysg, a'r nefoedd a gewch;
Pob gradd a sefyllfa, pob oedran, pob rhyw,
Dewch iddi o'ch gwirfodd i ddysgu Gair Duw.

**CYFARFOD LLENYDDOL MORIAH, TANYFFORDD.
LLUN Y PASC, 1892.**

Megis eraill o ardaloedd
A heirdd gymoedd Cymru fâd,
Medd yr ardal hon enwogrwydd,
Enwogrwydd natur—pwy a'i gwâd?
Oddi ar ei bryniau oesol
Ceir golygfa swynol iawn,
Yr arddunol a'r rhamantus
Yn eu gwisgoedd gorau gawn.
Mân ddoldiroedd teg a firwythlon,
A chornentydd llawn o gân,
Lle yr una'r côr asgellog
I delori'u hodlau mân;
Ar lechweddau'r gwyrdllas fryniau
Pora'r defaid, prancia'r wŷn,
A'r lle cyntaf cana'r gwec
Yw ar gangau coed Ty'n Llwyn.

O geseiliau clyd y Bryniau
 Tardda mân aberoedd syw,
 Pur a melys yw eu dyfroedd,
 Disglair fel yr arian byw;
 Ynddynt ceir y tlysog frithyll
 A'r anliwiog eog hardd,
 Edrych ar y rhain yn chwarae
 Ddena, swyna, galon bardd.

Nid prydfferthwch gorau natur
 Anfarwola'ch hyfryd fro,
 Ond duwioldeb yr hen dadau
 Aethant adref er ys tro—
 'R hen John Jones a Robert Davies,
 Eraill hefyd yn ddilyth;
 Mae eu henwau'n perarogli,
 Ac a fyddant felly byth.

Llawn yw'r fro o hen allorau,
 Aml i lannerch—Bethel yw
 Lle bu'r fyddlon bererinion
 Yn gorchfygu gyda Duw;
 Annwyl ienctid, ceisiwch grefydd,
 Crefydd ddeil o dan bob gordd—
 Crefydd felly ydoedd crefydd
 Hen dduwiolion Tanyffordd.

**CYFARFOD LLENYDDOL BRYNDAIONYN, EGLWYSBACH,
 NOS IAU, TACHWEDD 26, 1896.**

Bryn a gwerth iddo'n perthyn—ydyw
 Nodwedd Bryndaionyn;
 Uwch ei fri bo eich iach Fryn,
 Ac aur fo'n hulio'i goryn.

Ar ei ben bo gwir beunydd—a thrylwyr
 Athrylith ar gynydd;
 A'i lenyddiaeth yn faeth fydd,
 A gwir hufen i grefydd.

Heno ceir yn ddiacâd—ar ei ben
 Wyr o barch a phrofiad;
 A cherddorion mynion, mād,
 Medrus mewn cân a mydriad.

A thraethodwyr gwyr llawn gwaith—a thalent
 Fythola'i llafurwaith;
 Adroddwyr a'u mydryddiaith,
 Heno sydd mewn hoenus iaith.

A'u beirdd, ceir hwythau yn bod—ar y bryn
 Er bri i'r cyfarfod;
 Yn gewri clau, gwyr a'u clod
 Yn bur ac eglur hyglood.

BYR GOFIANT CYNDELYN

A beirniaid geir yn barnu—i ddangos
 Lle bydd angen dysgu;
 Yn ddifael er cael y cu,
 Hwyt a allent wyntyllu.

Frodyr yn bybyr gwnawn bobpeth—fyddo
 O fuddiant yn ddifeth,
 Er lles bachgen a geneth,
 Ar ddawn o dras rhoddwn dreth.

Gweithiwch, amcanwch gynnal—achos Ior
 A cheisiwch yn ddyfal;
 A'ch Duw a rydd i chwi dâl,
 Hwn ddaw eto'n ddiatal

CYFARFOD LLENYDDOL MORIAH, PASG, 1890.

I Moria mewn mawr awydd—y daeth
 Hardd dorf yn ddidramgwydd;
 A'r ŵyl hon yn foddion fydd,
 O faeth i hynafiaethydd.

Er cynnydd ar y canu—a chynnydd
 Gwych hynod cystadlu,
 I ddwysgall wir addysgu,
 Yn ddoethion lenorion lu.

Llenorion, dynion doniol—o'r bryniau
 A'r bronnydd cylchynol,
 Daw preswylwyr bryn a dól
 I werth mawr wrth ymorol.

Ysgol er dechrau esgyn—i gyrraedd
 Rhagoriaeth arobryn,
 A nod talent yn dilyn
 O radd hael, yw'r cyrddau hyn.

'R ŵyl hon yn foddion fyddo—i lawndeg
 Undeb a liafurio;
 A gwledd mewn tangnefedd fo
 Hanes cystadlu heno.

ADCOFION AM FORE OES.

Ynghanol helbulon, trallodion yn llu,
 Mor hyfryd yw cofio yr amser a fu,
 Mae'n meddwl yn 'hedeg i'r adeg a'r oes,
 Am ofid ni wyddem, ni theimlem un loes;
 Mor hoenus chwareuem pan oeddyr yn blant,
 A meddem chwareuon ni gredwn gryn gant,
 Un am ei dopyn, a'i chwipio'n ddiball,
 Ond cylllell a naddu oedd hobi y llall;
 O dyddiau dymunol rhowch eto eich côl,
 Ond profiad a ddywed na ddeuwch yn ol.

Un arall a fynai gael ceffyl a chwip,
 A gwaeddai'n ddi-ddiwedd, Way, Way, getro jip,
 A'r llall fyddai wrthi yn buildio gerllaw,
 Gan osod ei gerrig mewn mortar o faw;
 A chodai adeilad fel Twr Babel fawr,
 Ond rhywun a'i heibio a chic iddo'i lawr;
 Am hynny y builder a fyddai o'i gô,
 A'i gaddo hi'n erchyll o herwydd y tro;
 O ddyddiau dymunol, chwi aethoch fel gwynt,
 Mae profiad yn d'wedyd bod ninau yn mynd.

Ond wedi'r holl addo anghofid drachefn,
 A phawb a chwareuai mewn heddwch a threfn,
 Os byddai yn gwlawio aem ati' wneud llyn,
 A mawr y prysurdeb a fyddai'r pryd hyn;
 Un gyda'i ddwyllaw, a'r llall gyda'i raw,
 A phawb am y gorau'n bwaeddu'n y baw,
 Ar ol i ni wlychu yn wlyb at y croen,
 Difeddwl a fyddem am ofid a phoen,
 O adeg fendigaid ple 'rydwynt yn awr?
 Ni deimlem na weinw byth mwyach dy wawr.

Ar ol i ni faeddu a gwlychu'n ddidrefn,
 Gwynebu ein cartref oedd galed drachefn,
 Ein mam a ofynai—ple buoch chwi blant?
 A ninnau a luniem esgusion gryn gant;
 A hithau ddywedai yn arw fel gwai,
 A ninnau a ofnem wrth glywed y ffrae,
 Oherwydd y trosedd, y ddeddf yn ei grym,
 Fyddai gwely heb swper, a'i gaddo hi'n llym,
 O ddyddiau gwir ddedwydd, ple'r aethoch ar hynt?
 Ein profiad a ddywed eich bod wedi mynd.

I hel nythod adar yr elem ar dro,
 A chwilem yn ddyfal holl gloddiau y fro,
 A dyna lle byddem yn gyntaf ac ail,
 Cael ambell nyth Robin ynghanol y dail;
 Wrth ddringo y cloddiau, cael rhwyg yn y clôs,
 A'i wnio yn ddirgel oedd raid gyda'r nos;
 A mawr fyddai'r helynt wrth gyfrif pob wŷ,
 Ceid rhai yn cael gormod ac eisiau cael mwy,
 O ddyddiau ieuencid chwi aethoch yn gynt,
 Na gwenol y gwehydd, neu'r tarth ar ei hynt.

Ni godem yn forau i ddysgu ein tasc,
 Er mwyn dillad newydd a gawsid y Pasc,
 A phan ddeuai'r amser, i'r ysgol ar rês,
 A mawr fyddai'n meddwl o Ysgol Fforddilas;
 Y da William Roberts, ein hathraw oedd ef,
 A phawb yn ei barchu fel angel o'r Nef;
 O ddyddiau ieuencid, ni chawn ddod i'ch côl,
 Ond darpar ar gyfer y dyddiau sy'n ol.
 Mae byd yn ein haros lle gallwn gael byw,
 Am byth mewn ieuencid, yng nghwmni ein Duw.

EISTEDDFOD CONWY, NADOLIC 1896.

Wle 'steddfod a'i chôd yn gwych ledu,
 Edmygu talent a magu teulu,
 Hen Gonwy addien yn iawn gynhyddu,
 A'i mheibion gŵewion mewn gwaith yn glynu,
 Yn fawr enw'r hen Dre fu— ac eilchwyl,
 Am ei hoff orchwyl bydd mwyr o'i pharchu;
 Heddiw ceir mewn bri noddi llenyddiaeth,
 A beirdd enwog i nyddu barddoniaeth,
 Ac y mae eraill yn gu am araeth,
 Ceir i dda arwain hoffwyr cerddoriaeth,
 A cheir llenorion o chwaeth—Traethodwyr,
 Chwareuwyr, goreuwyr pob rhywogaeth.

**Eisteddfod Ebenczer Eglwysbach, 1897.
 I'R LLYWYDD.**

Cadeirydd, llywydd, llawen,—ydyw Lloyd
 Wele mae yn berchen
 Adnoddau dyn addien,
 Iawn ei barch mae heddiw'n ben.

LLOYD Y CHWAREUWR.

Cawn Lloyd arall ddiwall ddyn,—Ioan Lloyd
 Hen lyw yr offeryn,
 Yn ei le efe a fyn
 Uniawn adwedd pob nodyn.

Y BEIRNIAD CERDDOROL.

O Niwbwrch i wynebu—y corau
 Ceir Prys Jones i'w barnu,
 Dealla gân a'i ddull gu
 A chlir iawn gwna'i eloriannu.

BEIRNIAID ERAILL.

A beirniaid eraill heb wyrni—a fu
 O'u gwirfodd yn tafoli,
 Heddiw'n fawr cawn brawf o'u bri
 A'u tegwch wrth ddatogi.

Eto i'r Wyl yn gyffredinol.

Ceir Eisteddfod a'i nôd a'i beirniadu
 N'edmygu talent a magu teulu,
 Llenorion a dynion fedr ein denu
 A cherddorion rhai ceinion yn canu,
 A'u hathrylith yn fendith fu—i'n gwlad
 Yn ddiymwad nid hawdd ei ddiddymu.

Henffych i'r dydd pan mewn hedd gorseddir
 Y da a'r teilwng, i'r dewr y telir
 Mwy o sylw, a'r salw iselir,
 Ac hyn o fodd mewn amser ganfyddir
 Eto'r Eisteddfod a'i chlod uwch ledir,
 A gwagsaw hyllion arferion fwrir.

O fodolaeth, a'u hen fyd welir
 Yn iawn deithio, a phawb fendithir,
 Gwirionedd a goronir—Llenyddiaeth
 A cherddoriaeth yn uwch, uwch, urddir;
 Dyma'r dydd y bydd pob pau—mewn hoender
 A phob Ebenezer a phawb heb un eisiau.

Y SALMYDD.

Cyd fyddugol a Llenor o'r Liwyni yn Llanfairtalhaiarn.

Cerddor a phen awenydd—ei genedl
 Ni gawn oedd y Salmydd
 Nerth i enaid wrth raid rŷdd
 Nodau y perganiedydd.

Cymru ac addysg yn y flwyddyn 1895.

Dringo trwy rwystrau angen—yn awr
 A wna ein gwlad addien,
 A daw yn fath o Athen.
 Ie, a mwy, mwy, Amen.

CYNGORI'R IEUENCTID.

Ymroddwch am wir addysg,—y meddion
 I'ch meddwl fo'n hyddysg,
 Y gwyr da gorau eu dysg
 Ddaw a gemau yn gymysg.

Cyfarfod Llenyddol Llanellian, Mehefin 6ed, 1888.

Llanellian heddiw'n llon welir—a phlant
 Ei phlwy anrhydeddir,
 Cael diwrnod a'i glod yn glir,
 Ac hefyd y ffaith gofir.

Y meddwl yn cael moddion,—i'w goethi
 Cael gweithio yn gyson
 A llês i'r rhai ieuanc llon,
 Yw'r achos o'r ymdrechion.

Llanellian mewn llawn alwad,—a welir
 Yn hwyliog yn wastad,
 A mwy am eich defion mât
 Bydd son a boddus syniad.

BYR GOFIANT CYNDELYN
HEN URDD Y COEDWIGWYR.

Hen urdd y Coedwigwyr un annwyl yw hi,
Ei henw a'i hanes sy'n uchel mewn bri,
Hon ddywed yn eglur, mewn undeb mae nerth,
Ac undeb mewn angen a ddengys ei werth.

Brenhines undebol dyngarol ein bro,
Yw'n hen urdd odidog mwy enwog y bo,
Trysorfa ddarbodol ar gyfer y cla',
Rhag angen a thlodi ei gadw a wna.

Nid rhaid iddo fyned ar ofyn y Plwy,
Na dioddef cras eiriau eu Hofficer hwy,
Mae ganddo drysorfa ynghadw wrth gefn,
O hon y derbynia drachefn a thrachefn.

Derbynia wasanaeth y meddyg yn rhad,
A hwnnw ni gredwn y gorau'n y wlad,
A phan y dël angau i'w alw o'r byd,
Mor werthfawr i'r teulu fydd help ar y pryd.

Am hynny mawrygwn, canmolwn ein hurdd,
Yr hon sydd yn meddu aelodau fil myrdd,
Cymhellwn yr ieuainc i uno a hi,
Hwy ydynt ei haddurn, a'i choron a'i bri;
Dywedwn yn eofn, mewn undeb mae nerth,
Cyflawnwn weithredoedd fo'n dangos ei werth.

Y CHWEDLEUWR DAU-WYNEBOG.

Ym mhob cymdeithas bron fe gawn
Rhyw un yn hoff o chwedlau,
Ei waith o forau hyd brynhawn
Fydd llunio rhyw gelwyddau,
A'u bwrw allan o'i hen bair,
Yn hynod ddefosiynol,
Fel pe bae neb yn deall gair
O'i fradwaith hyll afreidiol.

Mae'n gwybod hanes pawb trwy'r wlad,
A thraetha'r cyfryw hefyd,
Ac nis gall beidio rhoi sarhâd
I'r gwrthrych wrth ymyryd;
Hyd atoch daw fel pe dan bwn,
Gofyna gyda syndod,
Glywsoch chwi am hwn a hwn?
Mae pawb o'r braidd yn gwybod.

Daw atoch weithiau gyda gwëdd
 Dra hynod Phariseaidd,
 Ond hyn yw'r gwir, bydd ganddo glêdd
 O dan y wên falfedaidd;
 Eich hudo bydd, er ceisio cael
 Eich meddwl hyd ei waelod,
 Ac wedi llwyddo yn ddiffaef,
 Bydd arnoch yn ymosod.

O herwydd arfer isel iaith
 A mynd trwy'r wlad i glebran,
 Bu hwn yn enwog lawer gwaith
 O danio ardal gyfan;
 Ac O! mor dduwiol byddai e'
 Yn gwrando ar y cyffro,
 A theimla'n ddwys fod dim o'i le
 Ond pwy a gredai'r cadno.

Daw'r Meistr yn ei dro trwy'r gwaith
 A bydd yn fawr ei dwrw,
 A braidd nis gall ymatal, chwaith,
 Heb arfer geiriau garw,
 Ond erbyn dranoeth ceir pahan
 Yr ydoedd ef yn dwrdio,
 Y clebrwr cás fu'n dweyd ar gam
 Am rhyw bersonau wrtho.

Mae'n ail i Judas fradus gynt,
 Edrychwch fel mae'n llechian,
 A ble dybygech mae o'n mynd
 Mor gytiym wrtho'i hunan;
 Mae ganddo 'stori newydd spon
 Am rhywun, gellwch goelio,
 A mynd y mae i adrodd hon
 I'r lle disgwylia groeso.

Gweithredydd ydyw hwn dan gudd
 Llechwraidd ei ymddygiad,
 Diniwed iawn lle bynnag bydd
 Os credwch chwi ei siarad:
 Ond gwelir rhywbeth yn ei waith
 A ddengys nad yw felly
 Ac nid rhaid aros amser maith
 Er mwyn cael praw o hynny.

Fel hyn yn wastad y bydd ef
 Yn creu a chodi cyffro,
 Hyd nes bydd pawb ac uchel lef
 Yn bwrw'i melldith arno;
 Ei amcan yw dyrchafu'i hun
 Wrth geisio gostwng arall,
 Ond hyn yw'r gwir y mae y dyn
 Yn wawd gan ddoeth ac anghall.

Yn bla mewn byd ac eglwys cawn
 Y clebrwr câs ei galon;
 Ar ol gweithredu'n deilwng iawn
 Bydd ganddo ef achwynion;
 A'r byd ymlaen yn llawer gwell
 Pe ceid rhyw foddion addas
 I'w roddi mewn daearol gell
 O gyrraedd pob cymdeithas.

**MARWOLAETH Y Parch. JOHN EVANS (I. D. FFRAID),
 LLANSANTFFRAID, GLAN CONWY.**

Wele ein Ffraid lawen ffraeth—Ow! wedi
 Ein gadael ysywaeth,
 Aml rai sy' yn teimlo'r saeth,
 Ac yn welw gan alaeth.

Cawr o ddyn, cywir oedd e'—a rhodiad
 Cymeradwy gartref;
 Bu iddo pawb a addef
 O du'i wlad godi ei lef.

Am ryddid llwyr ymroddodd—a dilys
 Ei dalent ddefnyddiodd,
 A'r gwan yn mhob man a modd
 Hoff annwyl amddiffynodd.

Dwfn archoll oedd ei golli—i feirdd
 Ef erddynt fu'n gweini,
 Fel beirniad difrad, o fri,
 Bu lenor yn blaenori.

Priod a Christion tirionwedd—a thad
 Doeth iawn yn mhob agwedd;
 Gweinidog o iawn nodwedd
 Wele fu hyd ael ei fedd.

Ein bardd, er it ymadaw o'n byd—bydd
 Dy barch yn ddisyfyd;
 Pur yw hwn, parhâ o hyd
 I derfyn pell daearfyd.

Fry yn awr yn ei fro newydd—y mae
 A mawr ei lawenydd;
 Calon drom, siom, yma sydd
 A hiraeth mawr o'i herwydd.

IAITH Y BEDD.

Moes, moes er mawr loes i'r wlad—a ddywed
 Y bedd oer yn wastad;
 Geilw bawb i gael heb wâd—yn ei dŷ
 Ddaear wely hyd ddydd yr alwad.

**CYFLWYNO TYSTEB I SEIRIOL WYNN, CAERGYBI,
Am ei wasanaeth gyda'r Ysgol Sul.**

Roddi heno i'r haeddiannol—yr y'ch
Yn rhwydd a dymunol;
Yn hir bydd i hon ei hôl
A sieryd gyda Seiriol.

Nôd amlwg o deimlad—cywir odiaeth
Caredig gyd-gasgliad;
Er rhoi parch i'r gŵr heb wâd,
Llona geir llawn o gariad.

Da weithiwr mewn cymdeithas—a'i 'wyllus
Gwneud allo'n gyfaddas;
Yn wir, bydd i bawb yn wâs,
A myna wneud cymwynas.

Er esgyn safle'r ysgol—mae'n ddiwyd
Ac mae'n ddoeth neilltuol;
Dwg ei cham, a dug i'w chôl
Mwy o ddeiliaid meddyliol.

Dyn i blant mewn dawn a bloedd—ydyw ef
Ceidw hwyl ar ganoedd;
A'u dysgu yn gu argoedd
Yn ei Biblau yn bobloedd.

A cherddor gwych ei raddau—yw efe
Hoew fardd o urddau;
Miwsig llawn gawn yn gwau
Yn nullwedd ei linellau.

Haedda fwy pe mwy y modd—o lawer
Ond wele rai punno'dd,
Diameu er hyn, dyma rôdd,
Hir gofia am yr aur gafodd.

Hir oes heb na chroes na chri—boed iddo
Byd addien a heini;
A'i glôd yn wir trwy'n gwlad ni—fo'n ddwbwl
A'r goreu o gwbl trwy Gaergybi.

PROFIAD Y CRISTION AR WELY CYSTUDD.

I blentyn Duw ar lawer pryd,
Ar daith trwy'r byd presennol.
Mae gwely cystudd o fawr werth,
A pheiriau certh yn llesol.

Dywedai'r Salmydd, wedi'r pair,
A'i air i ni sydd werthfawr,
Cyn fy nghystuddio 'roeddwn i
Yn cyfeiliorni'n ddirfawr.

BYR GOFIANT CYNDELYN

A hyn yw profiad llawer fu
 Ar wely mewn cystuddiau,
 Bendithiant Dduw, a dwedant—Da
 Y gwnaeth â ni yn ddiau.

'Rwyf finnau'n dechrau teimlo'n awr
 Bwys gwialen werthfawr cariad;
 Trwy ffydd 'rwy'n gweled nad oes gwae,
 Mil gwell mae lles mewn bwriad.

Fy Nuw, fy Nhad, yn ôl dy drefn,
 Dod im' drachefn dy gymod,
 A chadw'm henaid yn dy law,
 Rhag llithraw gyda phechod.

**Englyn o Cydymdeimlad oddiwrth Lewis Jones, Llanddulas,
 pap oeddw'n yn wael.**

Frawd annwyl, hyfryd inni—yw meddwl
 Fod moddion y profi
 Yn llaw'n Tad, ac na âd ni
 I adwyth gormod c'ledi.

Y LLUNIWR BAI LLE NA BYDD.

Pan gwrddo dau neu ddwy ynghyd
 O rai ynt hoff o chwedlau,
 'Rôl cyfarch gwell wrth drefn y byd,
 Dechreuir olrhain achau;
 Dywedir fod Miss hon-a-hon
 A hwn-a-hwn mewn cariad,
 A llunir stori newydd spon
 Er mwyn cael testun siarad.

Mae rhai mor hoff o lunio bai
 A cheisio codi cyffro,
 Hwy safant oll yn nhrysau tai,
 A'u barn ar bawb ôl heibio;
 Os bydd gan hwn neu hon ryw beth
 Yn digwydd bod yn newydd,
 Hwy ddwedant, a'u dwylaw ym mhleth,
 Mai'r peth-a'r-peth yw'r deunydd.

Ar ôl ich' fod mewn llafur dwys
 A hynod gydwybodol,
 A'ch gweithrediadau o fawr bwys
 I'r wlad yn gyffredinol,
 Y lluniwr bai, gan dybio'n gall,
 Wrth gwsr a wna eu mesur,
 A dyma ddwêd wrth hwn a'r llall—
 Mai'r fel-a'r-fel 'roedd gwneuthur.

Gwaith rhai yw gweld bai lle na bydd—a bod
 Yn byw mewn gwaradwydd;
 Ymboeni ar gam beunydd
 Gyda'u sŵn y giwed sydd.

Gwennu dan greu bwganod—eu gwelir,
 Heb g'wilydd o'u hathrod;
 Y rhai mwya'u bai yn bod
 Gâr achwyn, hen gorachod.

I LORD PENRHYN YN AMSER Y STREIC YN 1874.

My Lord trwy orthrech, ni threcha—y wlad
 Pan lwyr ymwrola;
 Yn wir, nid all trwy a wna
 Byth ostwng gwyr Bethesda.

EISTEDDFOD ROE WEN, NADOLIG, 1874.

Y Roe Wen fo'n ben beunydd—a'i defion
 Fo'n dyfod ar gynnydd;
 A chludeir hwnt ei chlodydd
 Acw ar daith i Gaerdydd.

Heddyw mae pawb yn addef—y gwelir
 Mai gwiwlon yw tangnef;
 Heb drais, adlais hyfrydlef
 Drwy y Llan draw yw y llef.

I'r Roe Wen yn arweinydd—y cawsom
 Wr cyson a chelfydd;
 Ein Gwalchmai yn ddifai fydd,
 Wele nid oes ei eilydd.

Owen Owen, un annwyl—a godwyd
 I gadair 'r uchelwyl;
 Un llon ei wedd, llawn o hwyl,
 Gŵr parod ac i'r perwyl.

Eos Llechryd, was llachar—yntau geir
 At y gân yn llafar;
 Yn ei iawn bwnc hwn in' bâr
 Gael hedd o agwedd hygar.

I'n Heisteddfod
 Orwych ddefod
 Wir iach ddifyr,
 Llu ddaw yma
 I gael eu gwala
 Gwiwlon gwelir.

Ceir y Roe yn cario'u rhan—yn deilwng
 O dalent ei threflan;
 Ei meib mwy fydd ym mhob man
 Yn cyrraedd clod ac arian.

**AR YMADAWIAD Y PARCH. G. R. JONES O
FFORDDLAS I'R CEFN MAWR, MEHEFIN, 1875.**

Amrywiol deimladau sy'n llenwi ein mynwes,
Rhoi ffordd i'r rhai hynny ni allaf yn iawn,
Ond gwyddwn pe ceisiwn ni allwn mewn hanes,
Na chwaith trwy rym ffethiau, eu dangos yn llawn;
Clwyfedig yw'r galon wrth feddwl yr achos
A'n dygodd ni yma oll heno i'r cwrdd—
Cyflwyno ein ffarwel i un a fawr garem,
Ni chawn mwy ei gwmni, mae'n myned i ffwrdd.

Trwy'r hyn a gyfrennir dangosir yn eglur
Mai nid gwrthodedig yw Jones yn y wlad,
Gall yntau, yn ddiau, roi inni dystiolaeth
Nad yw yn ymadael oherwydd un brad;
Mae ffawd arno'n gwenu, yntau yn ei derbyn,
Dyledswydd yn galw am hynny y sydd,
Rhaid ydyw gofalu am lesiant y teulu,
Neu fod mewn cymeriad yn waeth na'r di-ffydd.

Rhyw gredu yr ydym er iddo ymadael,
A chael ei hun gartref yn ardal y Cefn,
Na all ef, er hynny, ein perffaith anghofio—
Ehed mewn myfyrdod hyd atom drachefn;
A phan y caiff hamdden i sylwi o'i amgylch
Ar ffurf y bryn acw a'r ddoldir deg frâs,
Dyweda mewn atgof wrth gyfaill fydd agos,
Mae hon yr un ffunud ag ardal Fforddlas.

Yn ddiau, nid ydyw heb daflu ôl gipdrem,
Dros naw o flynyddoedd bu yma mewn gwaith,
Mae llawer o bethau yn myned trwy'i feddwl,
Ac nid ânt yn angof mor fuan, ychwaith;
Bydd melys myfyrio am lawer cyfeillach,
Cwrdd gweddi ac oedfa lle cafwyd gwir flas—
Y nef yn cyfrannu, a'r saint yn moliannu,
A hwyl i lefaru yng Nghapel Fforddlas.

Hyderwn nad ydyw ond dechrau disgleirio,
Canolddydd ei fywyd sydd eto ymhell,
Yr hwn a'i cynhaliodd hyd yma mor wrol
Barhao i'w nerthu, a daw yn well, well;
Hen gleddyf yr Ysbryd fo arf ei areithfa,
Traddodi'r Efengyl y byddo'n ddi-gêl,
A'i ddoniau'n fwy melys a'i lais yn fwy treiddgar,
A'i enaid dros Iesu yn tanio mewn sêl.

Gobeithiwn mai didwyll, ac hefyd parhaol,
Yw'r undeb mae wedi ei wneuthur yn awr,
Boed eglwys ei ofal yn eglwys ei gysur,
A'i lafur dan fendith yn ardal Cefn Mawr;
A phan y dynesa i wyddfod ei Arglwydd,
A'i lin yn blygedig o flaen gorsedd gras,
Ymysg ei ofynion am rasau yr Ysbryd
Gofynned yn fynych dros Eglwys Fforddlas.

Yr Arglwydd fendithio ei briod serchoglawn
 A modd i'w gyfnerthu yng nghyswllt ei waith,
 Boed iddi ymarier yr oll o'i dylanwad
 Er cadw'i gymeriad yn berffaith ddi-graith;
 Fel Eunice y byddo yn magu a meithrin
 Ei phlant bychain annwyl ym more eu hoes,
 O dan ei haddysgiaeth cynhyddu y byddont
 A'u bywyd yn deilwng o'r Iesu a'i Groes.

Hir einioes a gaffont i wneuthur daioni,
 A phawb yn eu parchu oblegid eu gwaith,
 Na ddeued un cwmwl dros heulwen eu bywyd—
 Eu hawyr fo'n ddisglair hyd derfyn eu taith;
 A phan ddelo angau i dorri'r cysylltiad
 Sy'n dal eu heneidiau tu yma i'r llen
 Boed iddynt fynedfa i'r hafan ddymunol,
 A glanio'n ddiogel ym mhorthladd nef wen.

DR. PRITCHARD.

ar ei waith yn llywyddu mewn Cyfarfod Llenyddol perthynol
 i Fedyddwyr Conwy.

Llywydd ac wyneb llawen—yn actio
 Yw ein Doctor trylen;
 Wele ef yn ei elfen,
 Iawn ei barch, heddyw'n ben.

Gwron sydd yn rhagori—ar lawer,
 Hael yw mewn caledi;
 Yn feddyg, os gwael fyddi,
 Eill â dawn dy wella di.

YR HEN LANC.

Rhyw fôd di-gartref ydyw—anwydog
 Ei nodwedd digyfryw;
 Ei hun bach y mae yn byw,
 I'w fynwes ni fyn fenyw.

DAU ENGLYN BUDDUGOL I GYHOEDDWYR PENUEL, BANGOR.

Hughes enwog sydd was annwyl—cyhoeddwr
 Cu addas ei orchwyl;
 Gŵr parod ac i'r perwyl,
 Llôn ei wedd a llawu o hwyl.

Llais eglur mewn llys hygloed—mwyn a fedd,
 Ac mae'n feistr ei dafod;
 Bennydd yr unrhyw bennod,
 Er ei ddawn, gawn o'i gôd.

I JOHN FFOULKES YNG NCHYNGERDD Y CODAU.

Mae'r hen lanc heno'n prancio—wrth ei fodd,
 Gwerth i fyd ei wrando;
 Mae'n arwr, a myn rorio,
 O'i fath 'does neb—dyma fo.

YR YSCOLFEISTR.

Gwerthfawr iawn mewn dawn a dysg—gwêl, i fyd
 Yw ysgolfeistr hyddysg;
 I bob gradd dyry addysg,
 A mawr yw hwn yn ein mysg.

COCHELWCH Y CWR FO'N GWERTHU BLAWD.

Wrth sylwi, cewch fod hwn i'w gael
 Ym mhob cymdeithas, bron,
 O ran ei waith mae'n hynod hael,
 A didwyll iawn ei fron;
 Mewn ymddangosiad gellir dweud
 Ei fod mor fwyn â brawd,
 Ond nid yw'r oll mae yn ei wneud
 Yn ddim ond gwerthu blawd.

Os byddwch mewn helbulon lu,
 Heb wybod p'le i droi,
 Eich hen gyfeillion unwaith fu,
 Yr awrhon wedi ffoi;
 Daw hwn ymlaen dan hoffi sôn
 Am aml gollledion gawd,
 Ond A! nid yw ei leddfaiidd dôn
 Yn ddim ond gwerthu blawd.

Os bydd i gyfoeth ddod i'ch rhan
 Trwy rhyw ddigwyddiad llawn,
 Efe ddaw atoch yn y man,
 A'i wedd yn siriol iawn;
 A dwed ei fod yn llawenhau
 Wrth feddwl am eich ffawd—
 Y pryd na bydd ef yn ddiau
 Yn ddim ond gwerthu blawd.

Bydd weithiau eisiau dewis dyn
 I swydd o fri mewn gwlad,
 Ac wedi cael y cymwys un
 Amlygir mawr foddhâd;
 Rhaid cael cyfarfod yn y dref
 I ddathlu llwydd y brawd,
 Ac yno yn uchel iawn ei lef
 Bydd ef—y gwerthwr blawd.

Mae hwn i'w ochel yn ein gŵydd,
 Oblegid bydd drachefn
 Yn llawn o waith, a dyna'i swydd—
 Ein gwawdio yn ein cefn;
 O dan ei wên mae twyll a brad,
 Drygionus yw ei rawd,
 Nid yw ei iaith ond mawr sarhâd
 Pan fydd e'n gwerthu blawd.

**I MR. EVAN HUGHES, RHYL, AM EI RODD HAELIONUS
 I EGLWYS Y CODAU.**

Gŵr annwyl a gâr weiniaid—ein Hughes yw,
 Hynaws iawn yn ddibaid;
 Cyfrannwr, rhoddwr wrth raid,
 Dyma anian dwym ei enaid.

Caed i Eglwys y Codau—o'i law ef
 Yn hael iawn mewn eisiau;
 Rhydd i wan aml gyfrannau,
 A bron o hyd heb brinhau.

Boed bendith fel gwllith a gwlaw—ar ei waith
 Yn rhoi aur o'i ddwyllaw;
 Yn wir, clod roddir iddaw,
 A heddyw dêl yn ddidaw.

I SEIRIOL WYNN, CAERCYBI.

Seiriol Wynn, un siriol wedd—ein pencerdd
 Sy'n pyncio'n ddiddiwedd;
 Synna fil â'r swyn a fedd
 Yn ei odlau a'i hyawdledd.

MAE'R BYD YN GWAU A DATOD.

Wrth syllu ar y byd
 Canfyddir ffeithiau eglur,
 Fod pawb o bryd i bryd
 Yn ymgais am gael cysur;
 Ymdrechir lladd y bai,
 Ond dyma'r gwir er syndod,
 Nid yw gweithredoedd rhai
 Ddim gwell na gwau a datod.

Fe welwn lawer un
 Yn esgyn i anrhydedd,
 A phawb yn moli'r dyn
 Oblegid ei haelfrydedd;
 Ond och! fe gaed y gwir,
 Yr amcan drodd yn wermod,
 Ac yntau cyn bo hir
 'Rôl gwau ddechreuodd ddatod.

Fe welwyd lawer tro
 Miss Hon-a-Hon yn ddestlus,
 A phawb yn dweud trwy'r fro
 Fod Hwn-a-Hwn yn lwcus;
 Yn un fe wnaed y ddau
 Hyd angau mewn cyfamod,
 Ond och! ar ôl y gwau
 Canfyddwyd arwydd.datod.

Fe welwyd bachgen hardd
 Yn selog fel Good Templar,
 Oedd gynt yn ddiwahardd,
 A meddwyn heb ei gymar;
 Ond gyda gofid mawr
 Yr ydym, ow! dan orfod
 I ddwedyd i chwi'n awr,
 Mae'r gwead wedi datod.

Mae Eglwys Loegr fawr
 Mewn cyswllt â'r wladwriaeth,
 A llawer sydd yn awr
 Trwy hyn mewn brâs fywoliaeth;
 Ond er y gorthrwm sydd,
 Mae amser gwych i ddyfod,
 Ceir gweled hon rhyw ddydd
 A'i gwead wedi datod.

Fe welwyd lawer gwaith
 Rhyw lu yn dod at grefydd,
 A'r oll am amser maith
 I'n tyb yn mynd ar gynnydd;
 Gwausant lawer iawn,
 A'u sêl oedd danbaid hynod,
 Ond erbyn hyn ni gawn
 Y cyfan wedi datod.

Fe wauwyd ddoe yn ddel,
 A phopeth ydoedd barod,
 Ond heddyw y mae fel
 Pe byddai'r gwaith ar ddatod;
 A dyna fel mae'r byd
 Yn hynod gyfnewidiol,
 Nes ceir o bryd i bryd
 Ryw siomiant anamserol.

Ti, enaid, sydd i fyw
 Am byth mewn byd tragwyddol,
 Bydd ddoeth, ystyria, clyw
 Yr hyn sydd angenrheidiol;
 Yr wvt yn gwau i'th ran
 Yr hyn na elli ddatod,
 Ac nas datodir pan
 Fydd byd a'i bethau'n darfod.

BYR GOFIANT CYNDELYN

Oedd gyfaill bydd ei gofio—yn hir,
 Anhawdd ymgysuro
 Wrth feddwl y gwerth fyddo
 Ar ei drem a'i air ar dro.

Didwyll ac annwyl gredadun—ydoedd,
 A'i nodwedd yn ddichlyn;
 Gŵr i Dduw, hawddgara' ddyn
 Ddaliodd hyd fedd i'w ddilyn.

Fry yn awr yn ei fro newydd—y mae,
 A mawr ei lawenydd;
 Ond ow! wylo'n Sejon sydd,
 A hiraeth trwm o'i herwydd.

AR OL Y BARDD, IOAN EMLYN.

Ow! cwmpodd y bardd campus—y llenor
 A'r cynllunydd medrus;
 Un oedd hynod gyhoeddus—yn ein mys
 A mawr ei addysg, athraw ymroddus.

Ef oedd un o fodd annwyl—a chyfaill
 Gwych hefyd ei orchwyl;
 Cennad hedd ac hynod ei hwyl—a fu
 Dros enw Iesu hyd y rhoes noswyl.

*Am farw diau myfyriodd—a'r bedd
 I'r byw a ddarluniodd;
 Ar gewri gwych rhagorodd—mewn cariad,
 Hon o fawr alwad a'i hanfarwolodd.

O'i fyned erys ei fonedd—a'i barch
 'Mysg beirdd De a Gogledd;
 Och! ow! boed yn llwch y bedd
 Y gwron mawr yn gorwedd.

Boed heddwch i'w lwch lechu—oddi fewn
 Idd ei fedd tra'n cysgu,
 Hyd nes y delo Iesu—Brynwr mât,
 Drwy ei gu archiad, adre' i'w gyrchu.

ETHOLIAD SIR GAERNARFON YN 1874.

pryd yr oedd Parry, Yswain Madryn, a'r Anrhydeddus Douglas
 Pennant yn ymgeisio. Etholwyd y Tori.

Ti orfuaist, O! Arfon—dy yrru
 I dir y gelynyon;
 Toriaeth, ysywaeth sôn,
 Gariodd ymaith dy goron.

* "Bedd y Dyn Tylawd."

A gyfansoddwyd wedi gweled y ffugchwedi a elwid "Yr Hen 'Stori," wedi meddiannu'r Golofn Farddol yn y "Faner" am Ionawr, 1874.

Wel, mae'r nofel yn awr—O! ddynion,
Am feddiannu'r nithlawr;
Hyntio holl faes y Wyntyll fawr,
A'i gyrru i ffwrdd o'i gorawr.

'R hen 'stori, tro anystyriol—oedd it'
Ddwyn y golofn farddol;
Gwylia di i gael o d'ôl
Athrod y beirdd aruthrol.

AR BRIODAS MR. WILLIAM WILSON, PLAS TIRION, A MISS OWEN, PANTYFFRITH.

Mewn cwlwm serch fe unwyd
Dau ieuanc annwyl iawn,
A chawsant ddydd eu hundeb
Gan bawb groesawiad llawn;
Yn tanio mewn brwdfrydedd,
A sêl a pharch dibaid,
Ceid hen gymdogaeth brydferth
A thawel Llansantffraid.

Dyrchafwyd heirdd lumanau,
Gwnawd bwâu dros y ffyrdd,
Arwisgwyd 'rhain yn ddestlus
A dail sy'n fythol wyrdd;
'Roedd sŵn yr erch fagnelau
Yn crynu creigiau'r lle,
A thân yr holl goelcerthi
Oleuai wlad a thre'.

Hir oes i William Wilson
A'i briod serchog lon,
Na ddeled cwmwl drostynt,
Na saeth o dan eu bron;
Boed iddynt fywyd dedwydd,
Pob un yn gwneud ei ran,
A ffawd a phob anrhydedd
I'w dilyu ym mhob man.

I nawdd yr Iôr goruchel
Cyflwynwn hwynt yn awr,
A boed Ei fendith arnynt
Tra yma ar y llawr;
A phan derfyno angau
Eu gyrfa is y nen,
Boed iddynt rwydd fynedfa
I mewn i'r nefoedd wen.

**AR FARWOLAETH EMRYS BACH, TY CAPEL,
FFORDDLAS.**

O'i febyd o'r byd i'r bedd—Emrys aeth
Er mor sionc ei nodwedd;
A'i enaid aeth i annedd
Angylion gwynion eu gwedd.

Y DDADL DDIRWESTOL

yn yr "Herald Gymraeg," wedi ei chychwyn
rhwyng Dewi Hafesp a Threbor Mai, Hafesp yn ddirwestwr a Threbor
yn wrth-ddirwestwr. Cymerodd amryw feirdd ran yn y ddadl, rhai
o blaid Hafesp, ac eraill o blaid Trebor. Yr oeddym ni o blaid
Hafesp, a bu'r ddadl yn cael ei chario ymlaen am wythnosau.
Fel hyn y canasom ni:—

Cyfaill y call diwallog—a ystyr
Ddirwestiaeth ardderchog;
A chwrrw cryf chwerrw grog
Ddyry i gŵn cynddeiriog.

ETO.

Yr ych, lle bynnag yr â—yn bur hyf
Bawr wellt nes ei wala;
O'i fodd yf ddŵr ni feddwa,
Wrth hwn glyn, fel y dyn da.

ETO.

Diau, yn hyn mae deall—at yr iawn,
Eto rhed fel arall;
Troi'r dwfr a'r yd hefyd all
Er mwyn ing i'r dyn angall.

I ffwrdd â dadwrdd didor—y dafarn
Er dofi ein Trebor;
Wedi'r rhwyg ni cheid rhagor—un meddwyn
I'w gadw'n asyn fel Nebugodonosor.

AR OL Y DIWEDDAR DAVID JONES, COLWYN.

yr hwn a fu yn flaenor flyddlon a gweithgar yn Eglwys Colwyn.

Ai Dafydd Jones sydd, O! mae'n syn—wedi
Ymadael mor sydyn;
Mewn adeg ail munudyn
Ei gloi dan briddellau'r glyn.

Daeth ingoedd trwy dy waith, angau—yn dwyn
Dyn da, llawn rhinweddau,
I orwedd mewn bedd, oer bau,
Och! isod at lwch oesau.

Ydoedd yn briod odiaeth—ac yn dad
Cun, doeth ei ddysgeidiaeth;
A gŵr o farn gywiraf oedd,
Llaweroedd fu'n well o'i araith.

BYR GOFIANT CYNDELYN

Oedd gyfaill bydd ei gofio—yn hir,
 Anhawdd ymgysuro
 Wrth feddwl y gwerth fyddo
 Ar ei drem a'i air ar dro.

Didwyll ac annwyl gredadun—ydoedd,
 A'i nodwedd yn ddichlyn;
 Gŵr i Dduw, hawddgara' ddyn
 Ddaliodd hyd fedd i'w ddilyn.

Fry yn awr yn ei fro newydd—y mae,
 A mawr ei lawenydd;
 Ond ow! wylo'n Seion sydd,
 A hiraeth trwm o'i herwydd.

AR OL Y BARDD, IOAN EMLYN.

Ow! cwmpodd y bardd campus—y llenor
 A'r cynllunydd medrus;
 Un oedd hynod gyhoeddus—yn ein mysg
 A mawr ei addysg, athraw ymroddus.

Ef oedd un o fodd annwyl—a chyfaill
 Gwych hefyd ei orchwyl;
 Cennad hedd ac hynod ei hwyl—a fu
 Dros enw Iesu hyd y rhoes noswyl.

*Am farw diau myfyriodd—a'r bedd
 I'r byw a ddarluniodd;
 Ar gewri gwych rhagorodd—mewn cariad,
 Hon o fawr alwad a'i hanfarwolodd.

O'i fyned erys ei fonedd—a'i barch
 'Mysg beirdd De a Gogledd;
 Och! ow! boed yn llwch y bedd
 Y gwron mawr yn gorwedd.

Boed heddwch i'w lwch lechu—oddi fewn
 Idd ei fedd tra'n cysgu,
 Hyd nes y delo Iesu—Brynwr mād,
 Drwy ei gu archiad, adre' i'w gyrchu.

ETHOLIAD SIR CAERNARFON YN 1874.

pryd yr oedd Parry, Yswain Madryn, a'r Anrhydeddus Douglas
 Pennant yn ymgeisio. Etholwyd y Tori.

Ti orfuaist, O! Arfon—dy yrru
 I dir y gelynion;
 Toriaeth, ysywaeth sôn,
 Gariodd ymaith dy goron.

Moedraist trwy wrthod Madryn—a dewis

Y dieithr o'r Penrhyn;

O! dihafal sâl, mae'n syn,

Gwneud 'sgutor o gnawd 'Sgotyn.

O! chwarelwyr, Och! yr alaeth—wnaethoch

Trwy weniethio'n helaeth;

Gwrthod, nid gorfod nac arfaeth,

Y rhydd wr cu, a graddio'r caeth.

Llwydion fyddo'ch dilladau,—wylwch

Am waeledd eich moesau;

O hyd gwnewch edifarhau,

Ac ystyr eich drwg gastiau.

I JOHN FFOULKS, Y DYN DALL.

Am ganu pwy yn amgenach—na Ffoulks,

Na phwy yn siriolach?

Yn siwr, mae ganddo lond sach—o bethau,

Hoyw ganiadau nas cawn eu hodiach.

Un brwd, addas am brydyddu—yw Ffoulks,

A phawb yn ei garu;

Gŵr hir, llawn, ac arwr llu,

Ac hynod hoff o ganu.

CYMANFA UNDEB YSGOLION LLANELIAN A'R CYLCH,

yr hon a gynhaliwyd yng Ngholwyn, Mehefin 8, 1876.

Hawddamor i'r Undeb Ysgolion,

Daeth yma hardd dyrfa ynghyd,

Ac hefyd canfyddir yn eglur

Eu bod yn cael pleser i gyd;

Nid pleser fel pleser y dafarn,

'Rôl hwnnw bydd gwayw 'n y pen,

Ond pleser rydd loniant i'r meddwl,

Heb drallod, na gofid, na sen.

Fe gafwyd gwasanaeth athrawon,

Arweinwyr ysgolion ein gwlad,

Rhai hyddysg yng Ngair y Gwirionedd

Er dysgu yr ieuanc yn rhad;

Ac hefyd ceir yma adroddwyr,

Rhai cofus a dawnus eu hiaith,

Mae arwydd o dalent a llafur

Edmygol ym mhob peth o'u gwaith.

Ceir yma dalentog draethodwyr,

Rhai medrus mewn meddwl a gwaith,

A cheir gyda hynny y beirddion,

Ac nid rhyw wehilion ychwaith;

Yn gweithio ceir Llanfair a'r Codau,

Llanelian, Bodgynwch, ynghyd,

Glanwydden a Cholwyn yr unwedd,

Llawn bywyd yw'r Undeb i gyd.

**AR OL Y DIWEDDAR BARCH, JOHN JONES, LLANBERIS,
a adnabyddid wrth y ffugenw "Hen Gloddiwr."**

Ioan mâd, yr ym ni mwy—o'i herwydd
Mewn hiraeth yn tramwy;
Ein gwlad a welir dan glwy,
Am ŵr hyglod mae mawrglwy.

Oedd gyfaill haedda'i gofio—yn wir,
Anodd meddwl peidio;
Dyn di-frad, dyn da i'w fro,
A dyn 'roedd pawb amdano.

Diymhongar yn ei lafar,
Iawn leferydd;
Nid ymchwydd pan y delai
Pen hudolydd.

Ni weithredai ond dda wyddai
Ydoedd addas;
Pan y gallai, ef a fyddai
Yn ufuddwas.

Didwyll ac annwyl gredadun—ydoedd,
A'i rodiad yn ddichlyn;
Gweddigar, maddeugar ddyn—llawer gwaith
Y rhoddai eilwaith yn rhydd i'w elyn.

Gwleddoedd fu gwaith "Hen Gloddiwr"—a
'Rôl hen gladdu'r awdwr; [gwleddoedd
Ond seigiau gorau y gŵr—
Ei weithiau fel pregethwr.

Llafuriodd, a dyna'i holl fwriad—dwyn
Dynion at y Ceidwad;
Ar waed y Groes rhoes fawrhâd,
Nôd amlwg oedd ei deimlad.

Hael fwriad Pen Calfaria—a welodd,
Mawr olud Jehofa;
A thlodion ddynion di-dda
At hwn efe a'u tynna.

Weithiau ergydiai yn gadarn,—amlwg
Gwnâi ymlid bob rhagfarn;
Dywedai byddai barn
O orfod, ac nid gwyrfarn.

Bryd arall mewn brwd eiriau,—yn tanio
Mewn tyner deimladau;
Yn fôr o hedd gwnâi fawrhau
Ei Dduw annwyl, a'i ddoniau.

Gwas i Iesu fu o'i fodd—a dilesg
Hyd alwad y daliodd;
I fwynhâd o'r Ne'n rhâd rodd,
I'w heddwch, pawb wahoddodd.

Yn naear Llandinorwig—ŵr annwyl,
Yr hun a'i gorff ysig;
Ond, o ras, ei enaid drig
Gyda y Bendigedig.

**CYNGERDD BRYN SEION, EGLWYSBACH, IONAWR 14,
1881.**

Cael undeb a'r gwyneb yn gwenu—a chael
Gwych hwyliau i ganu;
Yn ddi-feth mor dda a fu—cael wrth raid
Canu eosiaid idd ein cynhesu.

Gwyr y ddau blwy' yn hygar ddwyblaid—gawn,
Gwyr Conwy yn deirplaid,
Yn ddiboen ac yn ddibaid,
Ar gân yn helpu'r gweiniaid.

Heb arbed y ddyled ddu—a delir
Yn deilwng tan ganu,
Yma, o fodd, ceir am a fu
Iawn achos llawenychu.

I'r corau, iesin rhoir croesaw—hefyd,
Hir gofir hwy'n pynciaw;
Eu clod sy'n dod yn ddidaw,
A gwir deilwng guro dwylaw.

AR OL MARY.

annwyl ferch Robert a Jane Williams, Ynys Fawr.

Mary fach, nid marw fu—yr eneth,
Eithr hun a i ddadebru;
Daw o'r bedd a'i gwedd yn gu
I rasol barlwr Iesu.

CYNGERDD BRYN SEION, EGLWYSBACH.

Mae llawer o ieuencid
A'u meddwl a'u bost
Am gael rhyw bleserau,
Beth bynnag fo'r gost;
Gwnânt lawer o ymdrech
Er cyrraedd eu nôd,
Ond wedi'r holl lafur
Bydd siomiant yn bod.

Byrdwn.—Ond heno'n ddiffuant
Cawn londer a lles,
Ac Eglwys Bryn Seion
Ychydig o bres.

BYR GOFIANT CYNDELYN

Ar ôl bod yn gweithio
 Mewn llafur a chwys,
 Mae rhai am roi'u harian
 I borthi eu blys;
 Waeth be' ddweda'r siopwr,
 Y teiliwr, na'r crydd,
 Hwyl fymant eu pleser,
 Beth bynnag a fydd.
 Ond heno'n ddiffuant, &c.

Mae rhai am roi'u harian
 Am gwrw brâg haidd
 I wneuthur eu 'mennydd
 Mor feddal a maidd;
 Ac eraill am bibell,
 Tybaco a smôc,
 Er edrych yn ddynol
 A thipyn o "rogue."
 Ond heno'n ddiffuant, &c.

Yn canu'n rhagorol
 Ceir Côr y Fforddilas,
 A chôr Dafydd Dafis
 Sy'n debyg mewn blas;
 Ac eraill yn ddawnus,
 Soniarus a gawn,
 Mae pawb am y gorau,
 A phawb yn dda iawn.
 Ond heno'n ddiffuant, &c.

Dywedwn o galon,
 Ewch eto ymlaen,
 Eich llwyddiant fo'n fwyfwy,
 A'ch clodydd ar daen;
 Dyledion capeli
 Chwi dynnwch i gyd,
 A hynny tan ganu
 Yn llawen eich bryd.

Byrdwn.—Wrth helpu y gweiniaid
 Mae llonder a lles,
 A heno diolchir
 Am bentwr o bres.

**BUDDUGOLIAETH Y COR CYMREIG AR Y COR SEISNIC
 YN LLUNDAIN, GORFFENNAF 10, 1873.**

Y llynedd chwalwyd llenni—o gaddug
 Guddiai ein gwrhydri;
 Pwy gymaint mewn braint a bri,
 Gwir ddewrion am gerddori.

Yn ben eto eleni—ni fuom,
 Mae'n falch gennym nodi;
 Ein meib glân, hwy ym mhob "glee,"
 Gurent Prôudman a'i gewri.

Caradog enwog, annwyl—aeth â hi
Y waith hon, da orchwyl;
Wedi'i golchi'n deg eilchwyl,
Mwynhaed y gwpan mewn hwyl.

B'le yn awr mae John Bull a'i nâd—a'i lafur
Lifeiriail'n wastad?
Dyma ei lais a'i deimlad,
Amryw fai ar Gymru fâd.

Ha! gwn nad gwiw i'r gŵr ganu—bellach
Ymbwylla rhag cablu;
Y Cymro glân a'i gân gu
Ro'i fodd i'w ryfeddu.

**LLONGYFARCHIAD I GWMNI O GERDDORION O DDOL-
WYDDELEN MEWN CYNGERDD YN BRYNDAIONYN,
IONAWR 24, 1891.**

Breiniol gewri y bryniau—a gawsom,
Ac eosiaid yn ddiau,
Yn llawn hwyl i'n llawenhau
A'u swynol, beraidd seiniau.

Eu bro hardd mewn bri o hyd—hi a geir
Ac enwog iawn hefyd;
O'i Rhos fach hi roes i'r byd
Gewri, sy'n awr mewn gweryd.

Yn y gweryd o dan goron—y maent,
Rai mawr eu rhagorion;
Iawn agwedd yr enwogion
A erys ar yr oes hon.

Bertheos bortha awydd—y lliaws
Wna'n llawen beunydd;
A'i gwmni mât yn fâd fydd,
Mwy yn canu mewn cynnydd.

Dolwyddelen fo'n ben beunydd—yn y gân
'Rhain a geir yn gelfydd;
Adlais syw eu hodlau sydd
Yn glodus trwy y gwledydd.

DYMUINIAD AM WIR GREFYDD.

Arglwydd grasol dod dy gymorth
Imi yn yr anial dir,
I wrthsefyll fy ngelynion,
Ac i rodio'n ol y gwir;
Byw yn llewyrch Eâ oleuni,
Ar fy nhaith holl ddyddiau'm hoes,
Fel y gallwyf mewn gorthrymder
Orfoleddu dan y groes.

BYR GOFIANT CYNDELYN

Garw ydyw taith yr anial,
 Minnau'n eiddil ac yn wan,
 Ond os caf dy gymorth grasol,
 Deuaf drwyddi yn y man;
 Os ym gwelir wedi'm cadw,
 Bydd y clod yn eiddo Ti,
 Canu byddaf yn dragywydd,
 Am rin aberth Calfari.

EISTEDDFOD CONWY YR HON A GYNHELIR AR DDYDD
NADOLIG.

Er gwir feithrin cyfrinion—Llenyddiaeth
 Llawn noddi cerddorion,
 A Barddas hoff y Beirddion,
 Wele hawl yn yr wyl hon.

Er mwyn clod y Traethodwr—a weithia
 Yn goethus fel awdwr,
 Weithiau hefyd areithiwr—o feib gwlad
 A fydd o alwad yn fawr feddyliwr.

Er eu enyn llafur ac yni—gwaith
 Gwych fydd er daioni,
 Diwyd frawd yn dod i fri,
 A rhyw gawr yn rhagori.

Ac eofn agwedd cefnoger—y da
 A'r diwyd canmoler,
 I'r haeddol y wobr rhodder,
 Yna bydd ei enw'n bêr.

O fudd yr wyl a fyddo—na fydded
 Anfoddus i'w gofio,
 I beri gŵg un drwg dro—na wneler,
 Hedd ddadseinier yn ddawnus heno.

CYNGERDD FFORDDLAS NOS CALAN.

Ar nos Galan mor hynaws gwelir—lliaws
 Yn llawen ganfyddir,
 Cael mwynhad diwâd yn wir,
 A thalent a fytholir.

Wele heno Galenig—o nodwedd
 Ddeniadol a gwledig,
 Byw yn ddoeth heb neb yn ddig,
 Unol frodyr hael Frydig.

Calenig ac hwyl hynod—i ganu
 'Sy gennym er mawrglod,
 Mae heno bawb yn mynu bod,
 Yn beraidd ac yn barod.

Profir a gwelir mai gwiwlon—ydyw
 Nodwedd y cerddorion,
 Yn canu mae'r llu yn llon,
 A'u hadlais yn hyfrydlon.

Y mae cysur wrth lafurio—i'w gael
 Gwelwn fel mae'n llwyddo,
 Rhoi'r in brawf gan arwyr ein bro—o'r lles,
 Dyna yw hanes eu doniau heno.

Cerddoriaeth a'i henwog arwyddion—gawn
 Ar gynnydd yr awrhon,
 Am ein gwlad mae siarad a son—mor gu,
 Y mae'n canu yn ei menyg gwynion.

GUSAN JUDAS.

Heb wrido deuai'r Bradwr—a'i gusan
 I geisio'r Gwardwr,
 Nodi'r Glân; ffei aflan ŵr,
 O dan goron dyngarwr.

Darlith Mr. Harris ar y testun Nain a'i Hystranciau.

Y diddranc Nain a'i 'stranciau—hon a geir
 Mewn gwaith yn gwneud drygau
 Gochelwn, gwelwn mai gau,
 A chostus yw ei chastiau.

Y FWYELC.

Miniog ac arfog erfyn—o wir fudd
 Ydyw'r Fwyell ddillyn,
 Yn ei lle da yn llaw dyn,
 Hi nadda, hollta ddelltyn.

CYFLWYNEDIG I DR. PRITCHARD, CONWY.

Mae enw Doctor Pritchard,
 Yn annwyl trwy y dref,
 Gan wreng a chan fonheddig,
 Yn fawr y perchir ef;
 Mewn cyfyng amgylchiadau,
 Yn barod ceir e'n bod,
 Ac i'w ei lu rinweddau,
 Pentyrir arno glod.

Hawddgarwch sy'n teyrnasu,
 Ar wedd y gwron llon,
 Haelfrydedd a thosturi,
 Gartrefent yn ei fron;
 Ar gŵyn y tlawd y gwrendy,
 Ac iddo rhydd yn rhad,
 O rhyw feddyglyn gwerthfawr,
 Fydd er ei lwyr iachad.

BYR GOFIANT CYNDELYN

Fel meddyg medd enwogrwydd,
 Dihafal trwy y wlad,
 Ym mysg meddygon eraill,
 Efe sydd megis Tad;
 Ynglyn a'r afiechydon,
 A fydd trwy'r wlad a'r dref,
 Medrusrwydd mewn celfyddyd,
 A arddangosa ef.

Fel arwydd fach o urddas,
 Dyrchafwyd ef i'r swydd,
 O lywydd y Fwrdeisdref,
 A llanwodd hi yn rhwydd;
 Fel teyrnged o'i deilyngdod,
 Câdd y boneddwr mât,
 I'r Sedd Ynadol alwad,
 I wasanaethu'i wlad.

Pan ar y Faine eistedda,
 Fe wrendy ar bob cwyn,
 A phan ddechreuai siarad,
 Fe sieryd eiriau mwyn;
 Trwy hyn fe rydd foddlonrwydd,
 Os cosbi fydd y rhaith,
 Y llys ag ef gydsynia,
 Mai cyfiawn fydd y gwaith.

Dyrchafiad teilwng arall,
 Oedd ei ddyrchafiad ef,
 Yn aelod o'r Bwrdd Sirol,
 I gynrychioli'r Dref;
 Hir oes i Doctor Pritchard,
 I wasanaethu'i wlad,
 A miloedd a'u canmolant,
 Am ei weithredoedd mât.

MARWOLAETH CYNDELW.

Wr mawr, tydi ni cheir mwy—diosgaist
 Dy wisgoedd gweithiadwy,
 Yn ddiwâd mae'n weladwy,
 Ein gwlad o'th herwydd dan glwy.

Tad i feirdd tydi a fu—a noddwr
 I lenyddiaeth Cymru,
 Diwylliant trwy dy allu,
 I dy wlad ddefodau lu.

Yn hanesiaeth y cynoesau—oeddit
 Dra hyddydg yn ddiâu,
 Dal y gwir didol y gau,
 Oedd nawdd dy arwydd nodau.

Dy barabl yn nabl i'n oedd—mor swynol
 Yn mawr synnu pobloedd,
 Lawer gwaith yn hael ar goedd,
 Yn dy wlad rhoist oludoedd.

Mawr wron dros y gwirionedd—fust
 Yn fawr dy anrhydedd,
 Llawn o hwyl a llon o wedd,
 Od o ddoeth hyd dy ddiwedd.

Yn fywyd ein cymanfaoedd—ni chawn
 Chwaneg o'th alluoedd,
 Nac i ddysgu yn gu, ar goedd,
 Air y Beibl i'r bobloedd.

Ein Harwr dy goffadwriaeth—a fydd
 Yn fyw mewn hanesiaeth,
 Dy weithiau celfydd fydd yn faeth,
 I feddyliau o fodd helaeth.

**Wedi gwrando ar y Parch. William Hughes, Colwyn Bay, yn
 darlithio ar gyflwr moesol Affrica ynghyd a gwrando ar ddau
 o'r bechgyn duon yn canu.**

Ein Hughes heno sy' hynod—ei dalent
 'Sy hudolus barod,
 Yn ŵr rhagorol ei nôd,
 A difyr iaith ei dafod.

A dau o fechgyn duon—o hil Ham,
 Wele hwy ei weision,
 Da weithwyr a doethion—ânt yn ol,
 Yn wrol a hynodol genhadon.

I addas Elfengyleiddio—trigolion
 Treigleodd y Gongo,
 I adael ei gau gredo—troi'i gwyneb,
 Caru undeb ar Dduw fedr ei gwrando.

Daw Franc yn llanc i wneud lles—N.Kasa
 Yn gyson ei hanes,
 Y gwir draddodant mewn gwres,
 O'r Gongo draw i'r Ganges.

Hughes a'i ddewisol weision—a lwyddant
 I ladd ofergoelion,
 Drwy gael holl drigolion—Affric boeth.
 O'i hen ffyrdd anoeth i'r iawn ffordd union.

AR OL FY NHAD.

Bu'n dawel ben i'w deulu—er beunydd
 Mawr boenau i'w nychu,
 Diwyd trwy ei fywyd fu,
 Mâl ei oes oedd mawl Iesu.

Written as a **TOKEN OF RESPECT** to **H. D. Pochin, Esq.**,
 Bodnant Hall, for his kindness in entertaining to tea, the
 Schoolchildren and others, on Bodnant Hall Park, on the 18th,
 June, 1887, in commemoration of the 50th year of the reign of
 our Gracious Queen Victoria.

On lovely spot and quiet,
 Where silvery rivulet stroll,
 Through charming groves and meadows
 Stand gorgeous Bodnant Hall;
 While Nature, Art and Science,
 Around the mansion dwell,
 As if where all competing,
 In beauty to excel.

'Twixt all we find the mansion,
 The Park and walks along
 It's fishing lakes and gardens,
 Are worthy of Poet's song;
 The family Tomb as structure,
 Is not the least renowne,
 And richly ornamented
 With polished marble stone.

The name of Mr. Pochin,
 Is household lovely name,
 And will be so for ages
 With bright untarnished fame;
 Though bless'd with wealth unbounding,
 He shares with those in need,
 He's hero in Lib'rality,
 Indifferent sect or creed.

May it please our heavenly Father
 To grant him a long life,
 With blessing of all comfort,
 And his beloved wife;
 And when in death departing,
 This world with closing eyes
 Their home will be in glory,
 In Heaven above the skies.

**BEDDARGRAFF RICHARD WILLIAMS, FURNACE, YR
 HWN OEDD GERDDOR GWYCH.**

Bu yn dad gyda chaniadaeth—i lu
 Mawr les fu'i wasanaeth,
 Ond i hedd ei enaid aeth—byth mewn hwyl,
 Mawl yw ei orchwyl a mel ei archwaeth.

CYFLWYNEDIG I MR. DAVID WILLIAMS, MRS. A MISS WILLIAMS, TY CAPEL Y CODAU.

Mewn ardal dawel wledig,
 Rhwng amryw fryniau heirdd,
 Lle darfu awdur natur
 Ddarparu gwaith i feirdd;
 Yng nghesail un o'r bryniau
 I'e saif addoldy syw,
 Lle cyrcha yr ardalwyr
 I wir addoli Duw.

Gerllaw mae doldir fechan,
 A ffrydlif o ddwfr glan,
 Y ddwy ni fyth anghoïr
 Gan lu o deulu'r gân;
 Oherwydd yma gwnaethant
 Wir arddel Brenin Nef,
 Trwy ddangos yn eu Bedydd,
 Eu cariad ato ef.

Yng nghyswllt a'r Addoldy
 Y mae anedd-dy tlws,
 Bethania gweision Iesu,
 Hawdd gwybod yn ei ddrws;
 Yn hen Bethania Juda,
 Y teulu oeddynt dri,
 Y mae'n Bethania ninnau,
 Yr un o ran eu rhi'.

Yn hen Bethania Juda,
 'Roedd dwy o chwirydd da,
 A brawd o'r un cymeriad,
 Eu hoffi Iesu wna;
 Y mae'n Bethania ninnau
 I'r hen yn debyg iawn,
 Dwy chwaer a brawd caredig
 Yn Gristionogion llawn.

Yr eithriad yma ydyw,
 Mai Tad a Mam a Merch,
 Sy'n gwneud i fyny'r teulu
 Ynt yn wrthrychau serch;
 Yn ol y cylch teuluaidd,
 Mae'r tri yn llanw'i lle,
 Trwy hyn mwynhant dangnefedd,
 Ac ernes o'i gwir Ne'.

Hir oes i chwi fel teulu
 I wasanaethu'ch gwlad,
 I wasanaethu crefydd,
 Yn ol eich arfer mād;
 A pan ddel adeg gorffwys,
 Cewch orffwys yn y nef,
 A chael eich bythol wobrwyr
 Gan Iesu gydag ef.

EISTEDDFOD BEDYDDWYR CONWY, NADOLIG 1890.

Eisteddfod a'i chlod wych leda—yw hon
 O hyd y cynhydda,
 Erys ei doeth wersi da
 Yn weision i'r oes nesa.

Llwyddiant a mwyniant myner— i noddi
 Ein llenyddiaeth syber,
 A byw fyddo'n hen iaith bêr,
 Uwch hefyd ei dyrchafer.

YNG NGHYNCERDD FFORDDLAS, IONAWR 20, 1886.

Ar lan afon Conwy
 Saif Plwy' Llansantffraidd,
 A'i thonnau sy'n golchi
 Ei ochrau'n ddibaid;
 Fel eraill o Blwyfydd
 Henafol ein gwlad,
 Medd yntau hynodrwydd
 Fydd hir ei barhâd.

Lle bynnag ym tefir
 Gan donnau y byd,
 Ei enw fydd imi
 Yn annwyl o hyd;
 Yn un o'i heirdd gymoedd
 Mae doldir deg frâs,
 Ac ynddi cyfodwyd
 Hen gapel Fforddilas.

Ar aelwyd Ty'r Capel
 Y siglwyd mewn cryd,
 Y doethawr gerflunydd
 Fu'n synu y byd;
 Yr enwog John Gibson,
 Efe oedd y dyn,
 Enwogodd yr ardal
 Ac hefyd ei hun.

Ac yma am fwyddi
 Yn arwain y gâd
 Y bu William Roberts
 Y duwiol hen dâd;
 Hir gofir amdano
 Gan lawer trwy'r wlad,
 Ei weddi a'i bregeth
 A hawliant goffhâd.

Mae eraill yn huno
 Fu'n enwog mewn gwaith,
 Eu henwau sydd annwyl,
 A'u clod yn ddigraith;
 Yng nghanol y Dreflan
 Mae hen siop y Bee,
 Tra pery ei hadail
 Fe bery ei bri.

Llaweroedd a glywir
 Yn holl'n ddi-baid
 Dangoswch i'n gartref
 Y doeth J. D. Ffraid;
 Efe ydoedd feirniad,
 Cynghorwr wrth sail,
 Tad beirdd a phregethwyr,
 Arweinydd diail.

Llafuriodd hyd farw
 Dros hawliau ei wlad,
 Ei gas bethau oeddynt
 Caethiwed a brâd;
 Os deuwch ychydig
 Yn bellach ar hynt,
 Cewch gartref gwych awdur
 "Yr hen amser gynt."

Mewn bri ceir ei ganig
 Fe ddeil yn ystôr,
 Tra pery'r hen Gonwy
 I redeg i'r mor;
 Rhaid imi ffarwelio,
 Y tadau ni chlyw,
 A throi at y meibion
 Sydd heno yn fyw.

Hawddamor i gyngerdd
 Blynyddol Fforddlas,
 Mae pawb yn eu hwyliau,
 A phawb yn cael blas;
 Ni gawsom gydgasgliad
 O ddoniau dau blwy,
 Enwogion o Gonwy
 I'w chwyddo yn fwy.

Mae gennym gerddorion,
 Blaenoriaid y gân,
 Chwareuwr a Llywydd
 I enyn y tân;
 Areithwyr difyfyr,
 Rhai gorau'n y Sir,
 Ac un o'r rhai hynny
 Iw gŵr Bwlchwernhir.

Arweinydd cerddorion
 A beirddion y byd,
 Yw gwron y Peulws
 Mae'n barod bob pryd;
 Ond onid yw'n resyn
 Ei fod yn hen lanc,
 Ac ofnwn y mynna
 Fod felly hyd dranc.

Rhaid tynnu i derfyn
 A hyn a wnawn i,
 Oherwydd y canu
 Sy'n myned a hi;
 Dyweder a fyner,
 Mae canu'n gwneud lles,
 Oblegid mae canu
 Yn foddion hel pres.

I "Llais y Wlad," sef Papur Newydd Toriaid, Bangor, bu farw o ddiffyg cefnogaeth.

Llais Tori oll ystyriwn—ydyw ef
 Od o wael e'i barnwn,
 Rhyw gryglais a'i gais ydyw gwn,
 Ein hudo, o gwaredwn.

Rhyw lysenw ar lais anwn—ydyw
 Udiad llu o gorgwn,
 Rhyw oer nâd siarad a swm,
 Diflas, nynt ai taflwn.

Yr hyn a glywir o ben y Prenol, mewn atebiad i gân o eiddo John Foulkes, y dyn dall, ar yr olygfa o Ben y Prenol.

O'i gawraidd greigiog goryn—'e glywir
 Dadwrdd gwlad yn esgyn,
 Swm gweithio effro'n y dyffryn,
 Braidd o hyd yn y broydd hyn.

O'r hen Brenol freiniol fryn—y clywir
 Odlau clau y dyffryn,
 A chlywir yn glir o'r glyn,
 Hoff eco llais ein Ffowcyn.

Seiniau o'r Peulws enwog—hynodol
 Ganiadau ardderchog,
 Swm y gwr, fel sain y gôg;
 Neu cnopian yn Bryncnapiog.

Y CRYDD.

Dyn medrus, craffus yw'r crydd— a'i ddwyllaw
 Ar ei ddeulin beunydd,
 Addasaw draed ddiddosydd,
 A gwr da am bynciau'r dydd.

ARALL.

Ar ei eistedd gwr ystwyth—ac awdur
 Esgidiau i dylwyth,
 Ein traed geidwad rhag adwyth,
 A'i barch 'nol ei air a'i bwyth.

Y LLYGODEN.

Anghenus dreng ei hanian—ydyw
 Llygoden gall—afan
 O'i thwll ymwthia allan,
 Lle bydd, pla fydd, yn y fan.

Y BUGAIL.

Llygadog enwog arweinydd—a dewr
 Yw bugail da celfydd,
 I'r defaid dibaid y bydd,
 A'i ffon yn amddiffynydd.

ARALL.

Dewr, dyfal, a gofalus—yw agwedd
 Y Bugail da medrus,
 Ei braidd a geidw beb rus,
 Er ubain bleiddiaid rheibus.

I'R EHEDYDD BUDDUCOL YN GLANWYDDEN,
NADOLIG, 1881.

Yn ei reddf i'r nen yr â—Ehedydd
 Ar ei adain safu,
 Ac hynod bêr y cana,
 Fry ei hun foreusu ha'.

ER PARCHUS COFFADWRIAETH AM HANNAH THOMAS
 annwyl briod John Thomas, Gof, Ty'n y Groes, yr hon a hunod
 yn yr Iesu Awst 3, 1884, ac a gladdwyd ym Myrswent Ehoeglyb-
 ger Caergybi.

Hannah Thomas glywodd lawer,
 Newydd marw hwn a'r llall,
 Newydd marw hen ac ieuanoc,
 Newydd marw yn ddiball;
 Newydd marw hen gyfeillion,
 Newydd marw'i hannwyl dad—
 Ond mae eraill heddyw'n clywed
 Newydd marw Hannah fad.

BYR GOFIANT CYNDELYN

Gorchest ydyw ei hanghofio,
 Y mae hynny'n ormod gwaith,
 Meddwl am ei chwmmi hawddgar
 A rydd imi ruddiau llaith;
 Ond er im' wir hiraethu
 A galaru ar ei hôl,
 Ni chawn eto ei chymdeithas,
 Aeth i fyd ni ddaw yn ôl.

Er i'w thyner lais ddistewi
 Pan yr hunodd yn y glyn
 Mae hi eto yn llefaru
 Mewn modd arall y pryd hyn,
 A llefara i'r dyfodol
 Yn ei choffawdwriaeth bur;
 Cofio am ei hymddiddanion
 Olew fydd i boen a chur.

Hi lefara wrth ei phriod,
 Hi lefara wrth ei phlant,
 Hi lefara wrth yr Eglwys,
 A llefara megis sant;
 'Roedd yn briod hawddgar, ddiwyd,
 Ac yn fam dynera'n fyw,
 Yn ei gwaith yn Gristion cywir,
 Parchai bawb ac ofnai Dduw.

Colled ddirfawr oedd ei cholli,
 Colled idd ei phriod cu,
 Colled amhrisiadwy hefyd
 Idd ei hannwyl blant a fu;
 Colled fawr i'r cwrdd eglwysig,
 Colled, colled, yw ein cri,
 Ond os ydoedd i ni'n gollod,
 Ennill bythol iddi hi.

Ca'dd ei magu yn yr eglwys,
 Ca'dd ei dwyn ym more'i hoes
 I adnabod Crist yn geidwad,
 A mawr werth Ei angau loes;
 Penderfynodd roi ei bywyd
 I fod iddo o rhyw werth,
 Teimlai rym yr hen addewid—
 "Yn ôl dy ddydd y bydd dy nerth."

Hoffus ydoedd o'r gyfeillach,
 A'r cwrdd gweddi yr un wedd,
 Llauer gwaith y ca'dd i'w henaid
 Ynddynt ddarparedig wledd;
 Gwledd o basgedigion breision,
 Gwin puredig nefol wlad,
 Ernes fach o'r wledd dragwyddol
 Ydoedd fry yn Nhy ei Thad.

BYR GOFIANT CYNDELYN

83

Cafodd hithau megis eraill
 Ran o orthrynderau'r byd,
 Ambell ddiwrnod lled ddigwmwl,
 Llall yn niwlog ar ei hyd;
 Dioddefodd gystudd dirfawr,
 Ni rwgnachodd ar ei thaith,
 Ac mae heddyw'n gwisgo'r goron
 A enillodd am ei gwaith.

Angel fyddo yn gofalu
 Am ei chorff yng ngwely'r bedd
 Hyd y dydd caiff atgyfodi
 Yn anfarwol hardd ei gwedd;
 Wedi uno gyda'i henaid
 Heb raid byth ymadaw mwy,
 Meddu gorsedd, meddu telyn,
 Canu byth am farwol glwy'.

Ar ei hól 'rym ninnau'n teithio
 Tua thragwyddoldeb mawr;
 Megis tarth neu niwl y bore
 Yw ein bywyd gwael bob awr:
 Ymofynnwn am wir grefydd,
 Crefydd ddeil o dan bob croes,
 Crefydd felly ydoedd crefydd
 Hannah Thomas, Ty'n y Groes.

FFYDDLONDEB HYD ANGAU. (DATGUDDIAD II. 10.)

Bydd ffyddlon, bydd ffyddlon, O Gristion,
 Yn erbyn d'elynion bob pryd,
 Bydd ffyddlon, bydd ffyddlon, cei goncwest,
 Er maint yw y rhwystrau i gyd;
 Ymdrecha yn deg yn y rhyfel
 Yn erbyn y diafol a'i lu,
 Gwregysa dy hunan yn gadarn,
 Mae'r Iesu bendigaidd o'th du.

Er iti gael yma dy guro
 Gan 'stormydd cynddeiriog y byd,
 A'r diafol a'i erchyll ddyfeisiau
 Yn ceisio dy rwystro o hyd,
 Bydd ffyddlon, bydd ffyddlon hyd angau,
 Cei'n ddiau fawr dâl am dy waith,
 Mae'r Arglwydd bendigaidd yn addaw
 Hardd goron 'rôl gorffen y gwaith.

A honno yw coron y bywyd,
 Sydd fry yn y nefoedd i ti,
 Ei gwisgo a gei yn dragwyddol,
 Bydd iti'n anrhydedd a bri;
 Cei wisgoedd clærwynion amdanat,
 A thelyn o aur yn dy law,
 A chanu i'r Iesu'n oes oesoedd
 Heb arnat byth eisiau, cael taw.

PAN YN WAEL O DAN AFIECHYD YR IAU, HYDREF, 1880.

Gwael wyf ac wedi'm clwyfo—ac wele,
 Mae'm calon yn curo;
 Poen i'm cefn drachefn ar dro—ar ôl hyn
 Fy mhen wedyn fydd yn fy mhoenydio.

Rhyw ddrwg yn anharddu'r iau—a honno
 Mor hynod ei phethau;
 Mewn anhedd a'm gwedd yn gau—a dios
 Wyf mwy, o'i hachos, yn llwyd fy mochau.

CYNGERDD FFORDDLAS, NOS LUN, IONAWR 12, 1882.

I ddechrau ein canig, dymunwn hir oes,
 I wreng a bonheddig na fydded un loes,
 Y flwyddyn bresennol fo'n flwyddyn o dde,
 Cyfalaf a llafur yn llwyddo 'mhob lle,
 Ac yna y meistr a'r gweithiwr ynghyd
 Gydunant i ganmol Creawdwr y byd,
 A heno dechreuwn mewn llonder a blas,
 A phawb yn cael testun yng nghyngerdd Fforddlas.

Mae gennym i ganmol ein Crewr bob pryd,
 Oherwydd Ei roddion yr ydym ynghyd,
 Yn hen ac yn ieuanc, pob oedran, pob rhyw,
 Mae'n destun o syndod ein gweled yn fyw;
 Mae miloedd ddechreuodd y flwyddyn mewn hedd,
 Yn llawn eu gobeithion, yr awrhon mewn bedd,
 Ond wele ni'n canu mewn llonder a blas,
 A phawb yn cael testun yng nghyngerdd Fforddlas.

Hoff gennym yw gweled cynifer ynghyd,
 Mewn undeb mae gallu a llwyddiant y byd;
 Daeth yma gerddorion, rhai mwynion a mād,
 I ganu alawon henafol ein gwlad,
 A phawb yn ei arddull, pob un yn ei drefn,
 A phawb yn wir barod i ganu drachefn,
 A ninnau trwy hynny mewn llonder a blas
 Yn cael ein bodloni yng nghyngerdd Fforddlas.

Ni gawsom "official" o Gonwy wrth raid,
 A daeth idd ein helpu wych gôr Llansantffraid,
 A chawsom fel arfer i gynneu y tân
 John Ffoulks wrth ei bleser, a'i gôr yn rhoi cân;
 Athrofa wir werthfawr, rhaid i ni roi coel,
 I ddysgu cerddoriaeth yw Ty Ffrith y Foel,
 Oblegid eich llafur ceir llonder a blas,
 A phawb yn eich canmol yng nghyngerdd Fforddlas.

Ac hefyd mae gennym 'nawr gôr newydd spon,
 A chanant yn swynol—y blaenor yw John,
 Ac wele rai eraill gwir enwog mewn cân
 Yn canu nes toddi ein calon yn lân;
 Mae pawb yn cael heno, ni gredwn, rhyw les,
 Dim un yn anfodlon oherwydd rhoi pres:
 'Rôl hyn, ni a gredwn, dywedir mewn blas,
 Un hynod o ddifyr oedd cyngerdd Fforddlas.

I JOHN FFOULKS YN YR UN CYNGERDD.

Yr hen lanc hyd dranc ar dro—a rydd
 Help yn rhad lle byddo;
 Hyf ei ddawn, difyr fydd o—a medrus
 Ac mewn da 'wyllys cân gymaint allo.

ETO I MISS JONES, BIRKENHEAD, YN YR UN CYNGERDD.

Cân hon yn llon er ein lles
 Yng Ngwalia fel angyles.

ETO I GOR CONWY YN YR UN CYNGERDD.

Alaw Mabon yn llon, a llu—pert iawn
 Y parti wnânt ganu;
 Cyneuant dân ar gân yn gu—wrth raid
 Ni gawn eosiaid idd ein cynhesu.

ETO I GOR Y LLAN YN YR UN CYNGERDD.

Heno gwyr Ffraid, hen gewri ffraeth—rhwyddawl
 Rhoddant eu gwasanaeth;
 Ac yn eu llef ceir gwin a llaeth,
 Hoff foddion Solffayddiaeth.

CYLCHWYL LENYDDOL CONWY, NADOLIG, 1881.

Mae disgwyl wedi bod
 Am enwog ŵyl Nadolig,
 A daeth wrth drefn y rhod
 Yr amser penodedig;
 Ceir llawer dull a modd
 I dreulio'r dydd yn ddiau,
 Derbynnir aml i rodd,
 A cheisir rhyw bleserau.

Mae pawb yn cael mwynhad
 Pe na bae lles yn hynny,
 Ond 'leni ceir heb wâd
 Y ddau yn 'Steddfof Conwy;
 Mae rhai am gicio pêl,
 A rhedant fel rhai angall,
 Rhaid ennill, doed a ddêl.
 Neu gicio rhywbeth arall.

BYR GOFIANT CYNDELYN

Mae rhai am fynnu gŵydd,
 A'u hobi ydyw gwledda,
 Ceir eraill yn eu swydd
 Am ganlyn cŵn a hela;
 Mae pawb am gael mwynhad,
 Pe na bae lles yn hynny,
 Ond 'leni ceir heb wâd
 Y ddau yn 'Steddfod Conwy.

Addawodd ambell un
 Nad yfai yn dragywydd,
 Ond heddyw wele'r dyn
 Yn mynnu boddi'r m'linydd;
 Rhaid ydyw iddo gael
 Yr hyn a'i gwna yn wrthun,
 A gwelir ef, un gwael,
 A'i wedd ym muchedd mochyn.

Mae pawb am gael mwynhad,
 Pe na bae lles yn hynny,
 Ond 'leni ceir heb wâd
 Y ddau yn 'Steddfod Conwy;
 Bydd hon-a-hon yn rhydd
 I fynd am dro y gwyliau,
 A mawr ddarparu fydd
 Trwy brynu newydd bethau.

Rhaid cofio am y pwrs
 Er mwyn cael pres i wario—
 Rhaid dangos parch, wrth gwrs,
 Tra byddo ffyrlling ynddo;
 Mae pawb am gael mwynhad,
 Pe na bae lles yn hynny,
 Ond 'leni ceir heb wâd
 Y ddau yn 'Steddfod Conwy.

Ymgyrcha rhai ynghyd
 I drin y byd a'i bethau,
 A llawen fydd eu pryd
 Wrth ddiwyd bigo beiau;
 Fel hyn mae dull y byd
 O wyl i wyl mynd heibio,
 A phawb yn cael o hyd
 Rhyw fath o bleser ynddo.

Mae pawb am gael mwynhad,
 Pe na bae lles yn hynny,
 Ond 'leni ceir heb wâd
 Y ddau yn 'Steddfod Conwy;
 Y mae pleserau i'w cael
 Nad ydynt werth eu meddu,
 Ond heddyw yn ddi-ffael
 Ni gawn rai gwerth eu parchu.

Cyfiawnder heddyw fydd
 Arwyddair yr Eisteddfod,
 A phawb yn cael trwy'r dydd
 Yn ôl eu gwir deilyngdod;
 Ac yna ceir llesâd
 A gwir fwynhad trwy hynny,
 A dwedir heb nacâd,
 Un dda oedd 'Steddfod Conwy.

**DR. GOMER LEWIS, YN DARLITHIO YN FFORDDLAS,
 NOS FAWRTH, HYDREF 2, 1906.**

Gomer sy'n byrlymu gemau—o'i ben
 Daw baich o drysorau;
 Yn ei ddawn mae yn ddiâu
 Yn bwythwr ar iawn bethau.

Mae'n ddyn od a bydglodus—a'i enw
 Sydd annwyl yn ddilus;
 Yn dda ei raen, yn ddi-rus,
 A'i dalent yn hudolus.

Argraffwyd a rhwymwyd yn Swyddfa'r "North Wales Times,"

Dinbych

